



# PECYN CYMORTH GWYBODAETH GYRFAOEDD I WEITHWYR PROFFESIYNOL CYMORTH SYNHWYRAIDD

## CYNLLUNIAU GWERS A GWEITHGAREDDAU I GEFNOGI POBL IFANC BYDDAR 13DEMO25 OED

National Deaf Children's Society
CYMRU

THE CAREERS & ENTERPRISE COMPANY





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Cefnogi darpariaeth y cwricwlwm yng Nghymru | 8 |
| Defnyddio'r pecyn cymorth hwn | 11 |
| Amcanion a chanlyniadau dysgwyr | 12 |
| Cynllun gwers 1 – Cyflwyniad a thorri'r garw | 15 |
| Cynllun gwers 2 – Meddu ar eich byddardod | 23 |
| Cynllun gwers 3 – Eich hawliau | 30 |
| Cynllun gwers 4 – Gobeithion a breuddwydion gyrfa | 34 |
| Cynllun gwers 5 – Adeiladu'ch brand | 42 |
| Cynllun gwers 6 – Opsiynau Ôl-16 | 50 |
| Cynllun gwers 7 – Cefnogaeth a thechnoleg | 59 |
| Cynllun gwers 8 – Cynllunio camau gweithredu i'ch gyrfa | 66 |
| A dyna hi! Rydych chi wedi gorffen! | 71 |
| Cyfeirio | 73 |
| Adnoddau | Atodiad ar wahân |

# RHAGAIR

Rydw i'n falch iawn i gyflwyno pecyn cymorth Byddar yn Gweithio ym Mhobman i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc byddar. Nod y pecyn cymorth hwn yw eich cefnogi chi wrth i chi gynnig cyngor gyrfaoedd wedi'i deilwra i'r grŵp hwn ac i'ch ysbrydoli chi trwy gyfleu'r ystod eang o swyddi y mae pobl fyddar yn ei wneud. Rydw i'n cwrdd â phobl fyddar mewn pob math o rolau o filfeddygon i athrawon i'r rheini sy'n rhedeg busnesau eu hun. Trwy Byddar yn Gweithio ym Mhobman rydyn ni wedi casglu enghreifftiau ysbrydoledig o bobl fyddar mewn gwaith ac yn eich annog chi i'w rhannu gyda'ch myfyrwyr.

Er bod yna nifer fawr o lwyddiannau, rydw i wedi teimlo'n rhwystredig oherwydd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth pobl fyddar a phobl sy'n clywed. Hefyd, rydyn ni'n gwybod bod y wybodaeth sydd gan bobl ifanc byddar a'u teuluoedd am y cymorth sydd ar gael i bobl fyddar yn y gweithle, a'u hawl i addasiadau rhesymol, yn wael. O ganlyniad efallai nad ydyn nhw'n gwneud penderfyniadau hollol wybodus am eu dyfodol.

I'r bobl ifanc hynny sydd ddim yn cyflawni graddau arholiad uchel, gall fod effaith ar yr ystod o raglenni sydd o fewn eu cyrraedd ar ôl-16. Ond, mae dal yna opsiynau boddhaol ar gael i'r myfyrwyr hyn ac mae'n hanfodol eu bod nhw'n cael mynediad at rolau model cadarnhaol a chymorth gyrfaoedd o ansawdd uchel.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i wasanaethau cymorth synhwyraidd awdurdodau lleol, canolfannau adnoddau ac ysgolion byddar, i'w helpu nhw i ddarparu gwybodaeth sy'n benodol ar gyfer pobl fyddar a gall ychwanegu at y cyngor mwy cyffredinol sydd ar gael.

Nid oes angen i Athrawon Plant Byddar ac ymarferwyr allweddol eraill sy'n cefnogi pobl ifanc byddar fod yn arbenigwyr mewn cyngor gyrfaoedd. Ond, trwy rannu gwybodaeth allweddol am hawliau pobl ifanc byddar, y cymorth sydd ar gael iddyn nhw yn y gweithle, amlygu modelau rôl byddar ac annog myfyrwyr i greu cynlluniau gweithredu personol, rydw i'n credu gallwch chi wneud gwahaniaeth sylweddol i ac effeithio ar yrfaoedd pobl ifanc byddar yn y dyfodol.



**Susan Daniels, Prif Swyddog Gweithredol,**
**Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar**



# CEFNOGI DARPARIAETH Y CWRICWLWM YNG NGHYMRU

Gall pecyn cymorth Byddar yn Gweithio ym Mhobman gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gwrdd â dyletswyddau a disgwyliadau allweddol mewn perthynas ag addysg gyrfaoedd a chymorth pontio.

Mae cwricwlwm newydd i Gymru (sydd i fod i gael ei gyflwyno yn 2022) yn amlinellu gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith fel thema drawsbynciol ar draws bob agwedd o ddysgu yn y cwricwlwm. Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm yn nodi:

> "Dylai profiadau anelu at agor llygaid dysgwyr i'r posibiliadau sydd o'u blaenau a dylent roi cyngor o ansawdd uchel ar sgiliau a llwybrau gyrfa, gan godi dyheadau dysgwyr sydd efallai ddim yn sylweddoli bod rhai cyfleodd wir ar gael iddyn nhw.

> "Dylai cwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfaoedd, gan feithrin gwybodaeth o ehangder y cyfleoedd a fydd ar gael iddyn nhw gydol eu hoes. Bydd y dysgu hwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am lwybrau eu gyrfa."[1]

Yn benodol, Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod ysgolion ac ymarferwyr yn sicrhau bod profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd "yn gynhwysol, gan roi pwyslais ar gyfleoedd i bawb, herio stereoteipiau a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn gwahanol yrfaoedd."[2]

1. Llywodraeth Cymru, Ionawr 2020 Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, tudalen 43. **Ar gael yn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/**

2. Llywodraeth Cymru, Ionawr 2020 Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, tudalen 44. **Ar gael yn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/**

Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu ymarferwyr i gefnogi eu dysgwyr byddar mewn herio mythau ynghylch rhwystrau yn y gweithle ac yn ceisio cefnogi eu hyder mewn dilyn gyrfa a gwaith sy'n eu hysbrydoli.

Mae'r adnoddau sy'n rhan o'r pecyn cymorth hwn wedi'u hanelu at bobl ifanc 13 oed a hŷn. Ond, gallan nhw fod yn berthnasol i bob cam o'r cwricwlwm lle mae yna amcanion dysgu ar uchelgeisiau, gyrfaoedd, gwaith a hawliau cyflogaeth.



# DEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH HWN

Anelir y pecyn cymorth hwn at weithwyr proffesiynol cymorth synhwyraidd. Rydyn ni'n cydnabod bod gennych chi gyfoeth o brofiad o weithio gyda phobl ifanc byddar, a bwriad y pecyn cymorth hwn yw rhoi adnoddau ychwanegol i chi i'ch helpu teilwra cyngor gyrfaoedd i'r grŵp hwn. Os byddwch chi'n edrych ar y pecyn cymorth hwn heb brofiad o weithio gyda phobl ifanc byddar, rydyn ni wedi cynnwys gwybodaeth ar ymwybyddiaeth o fyddardod o fewn y pecyn cymorth, neu ymwelwch â **www.ndcs.org.uk/get-involved/deaf-awareness-tips/.**

Trwy'r pecyn cymorth hwn rydyn ni wedi defnyddio'r term 'byddar' i gyfeirio at bob math o fyddardod o fân i lwyr, yn cynnwys byddardod mewn un glust. Mae pobl fyddar yn defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu ac mae eu profiad o fyddardod yn unigryw a phersonol.

Dylunnir y pecyn cymorth i weithio mewn cydweithrediad â'r adnoddau ar ein gwefan yma yn **www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys nifer o ddolenni at ddarllen pellach.

Dylunnir y pecyn cymorth hwn i gynnig i chi weithgareddau syml a hyblyg i'w defnyddio gyda phobl ifanc byddar ac rydyn ni wedi cynnwys ystodau oedran awgrymedig. Efallai byddwch chi'n dewis cynnal y cwrs hwn fel cwrs diwrnod llawn, neu yn ei rhannu yn sesiynau i'w cynnal dros sawl wythnos. Eich dewis chi yw hyn gan mai chi sy'n adnabod eich myfyrwyr orau! Gallwch hefyd gyfuno'r gweithgareddau hyn gyda'ch sesiynau cyngor gyrfaoedd. Newidiwch neu addaswch y gweithgareddau fel eu bod yn addas i'ch anghenion.

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys sawl astudiaeth achos o bobl fyddar sy'n gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau a'u cynnwys mewn rhai o'r cynlluniau gwers isod.

I'ch helpu chi ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn, rydyn ni wedi creu modiwlau dysgu ar-lein a fydd yn ddefnyddiol wrth gynnig cefndir ac awgrymiadau ar sut i gynnal y cwrs. Gallwch eu gweld nhw yma **www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**.

Rydyn ni mor falch eich bod chi gyda ni ac os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni yn **ndcs@ndcs.org.uk**.

## CYFARWYDDYD AC ALLWEDD I'R CYNLLUNIAU GWERS

Gellir lawrlwytho clipiau fideo a deunyddiau ategol eraill i Byddar yn Gweithio ym Mhobman o'n gwefan **www.ndcs.org.uk/deafworkseverywhere**.

Gwyliwch am yr eiconau dilynol drwy'r pecyn cymorth – byddan nhw'n eich helpu chi gynllunio'r gweithgareddau ac yn tynnu eich sylw at arweiniad ychwanegol:



Mae hyn yn dangos pa adnoddau i'w defnyddio i bob gweithgaredd. Maen nhw i gyd ar gael yn y dogfenni Adnoddau. **(www.ndcs.org.uk/dwetoolkit).**



Awgrymwn pa mor hir dylai'r gweithgareddau bara – ond awgrymiadau yn unig yw'r rhain. Gallwch drefnu strwythur y gweithdai fel y mynnoch chi ac efallai byddwch chi am dreulio mwy o amser yn gwneud rhai gweithgareddau er mwyn cael mwy o amser am gwestiynau ac amser i drafod.



Os hoffech chi ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint rydyn ni wedi'i greu i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r cynlluniau gwersi edrychwch am yr eicon hwn a fydd yn nodi pa sleid sy'n cyd-fynd gyda phob gweithgaredd.



Amlygir gweithgareddau sy'n dda ar gyfer trafodaethau grŵp gyda'r eicon hwn



Mae hyn yn dangos astudiaethau achos pobl fyddar sy'n gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau, yn ogystal â theithiau eu gyrfaoedd, i'w defnyddio fel modelau rôl i'ch grŵp.



Mae hyn yn dangos awgrymiadau darllen pellach ar ddiwedd rhai o'r cynlluniau gwers – efallai bydd y rhain yn ddefnyddiol i chi wrth i chi baratoi ar gyfer y gweithdai.



Mae'r eicon hwn yn dangos dolenni i glipiau fideo ac awgrymiadau defnyddiol eraill

## AMCANION DYSGU'R CWRS

Bod pobl ifanc byddar yn gallu:

- cael dealltwriaeth dda o'u byddardod eu hunain ac i fod yn hyderus am sut all eu byddardod fod o fudd
- dangos mwy o ymwybyddiaeth am y cymorth a thechnoleg y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw, er mwyn cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn cynnwys:
  - › eu hawliau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014), a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)
  - › addasiadau rhesymol
  - › cymorth technoleg a chyfathrebu
  - › cyllid
  - › gwybod pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r cymorth hwn
- adnabod eu cryfderau, diddordebau a'u personoliaethau
- disgrifio beth yw sgiliau meddal a pham maen nhw'n bwysig i gyflogwyr
- dangos gwell dealltwriaeth o'r opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael iddyn nhw
- esbonio bod cyflawni amcan gyrfa yn golygu taith trwy opsiynau addysg neu hyfforddiant
- disgrifio modelau rôl byddar yn gwneud amrywiaeth o swyddi
- dechrau cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r camau nesaf yn eu taith tuag at gyflogaeth.

## Y CANLYNIADAU HIRDYMOR

Bod pobl ifanc byddar:

- ag uchelgeisiau ehangach am yr hyn maen nhw'n gallu ei gyflawni yn eu gyrfa
- yn pontio yn llwyddiannus i gyflogaeth foddhaol
- yn gallu sicrhau'r gefnogaeth ac addasiadau sydd angen arnyn nhw i gael mynediad sydd o ansawdd da at addysg a hyfforddiant ôl-16
- yn ennill y sgiliau meddal sydd yn trosglwyddo rhwng rolau ac sy'n cefnogi dilyniant.



# CYNLLUN GWERS 1: CYFLWYNIAD A THORRI'R GARW

## AMCAN Y WERS

I greu man lle mae pobl ifanc byddar yn teimlo'n gyfforddus i siarad amdanyn nhw eu hunain a lle gall pawb gael mynediad at gyfathrebu.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- deall ac esbonio beth i ddisgwyl o'r gweithdy
- deall ac esbonio'r rheolau sylfaenol am gyfathrebu effeithiol
- siarad amdanyn nhw eu hunain mewn amgylchedd diogel a chyfforddus.

## BRASLUN Y WERS

### Sleid 3

Croesawch y bobl ifanc i'r gweithdy a chyflwynwch eich hunan, yn ogystal ag unrhyw oedolion eraill sydd yn bresennol os nad yw'r myfyrwyr yn eu hadnabod nhw yn barod. Mae'n ddefnyddiol, wrth gyflwyno eich hunan ac oedolion eraill, i ddweud enwau a dewisiadau cyfathrebu er mwyn atgoffa pawb ac i osod tôn y sesiwn.

### Sleidiau 4 a 5

Dywedwch wrth y bobl ifanc eich bod chi am wneud sesiwn heddiw yn un hawdd ac effeithiol i bawb. Gofynnwch i bawb i gadarnhau eu hanghenion ac/neu ddewisiadau cyfathrebu.

Esboniwch i'r bobl ifanc bod enw'r gweithdy hwn yw Byddar yn Gweithio ym Mhobman a heddiw byddwch chi'n siarad â nhw am ba opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ar ôl iddyn nhw adael ysgol. Esboniwch eich bod chi hefyd am siarad â nhw am waith a'r swyddi efallai byddan nhw am eu gwneud a pha cymorth sydd ar gael. Esboniwch yn fyr pa bynciau byddwch

chi'n cynnwys heddiw, mi fydd hyn yn dibynnu ar ba gynlluniau gwers a gweithgareddau rydych chi wedi dewis i'w gyflwyno.

## Sleid 6

Gofynnwch i'r bobl ifanc am beth all pawb yn yr ystafell ei wneud i sicrhau cyfathrebu effeithiol i bawb a gosodwch rai rheolau sylfaenol ar gyfer y sesiwn. Ysgrifennwch y rhain ar siart droi fel gallwch chi gyfeirio yn ôl atyn nhw.

Awgrymwn y rheolau sylfaenol canlynol i'w hystyried:

- Codwch eich llaw os ydych chi am siarad.
- Dim ond un person i siarad ar y tro.
- Wynebwch y grŵp a sicrhewch fod pawb yn gallu gweld eich wyneb pan rydych chi'n siarad (efallai bydd rhaid ichi ddod i flaen yr ystafell).
- Peidiwch â thorri ar draws unrhyw un.
- Byddwch yn amyneddgar.
- Gweithiwch gyda'ch gilydd a chefnogwch eich gilydd.
- Byddwch yn agored ac yn onest gyda'ch gilydd.
- Dim barnu/parchwch bawb.

Atgoffwch y grŵp am bwysigrwydd ymwybyddiaeth o fyddardod a sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at gyfathrebu.

Awgrymiadau ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod:

- Wynebwch y person rydych ch'n siarad â nhw/neu wynebwch y grŵp pan rydych chi'n siarad.
- Siaradwch un ar y tro mewn sefyllfa grŵp.
- Arhoswch yn llonydd er mwyn i bobl eraill gallu ddarllen eich gwefusau.
- Siaradwch fel y byddwch chi'n ei wneud yn arferol – does dim rhaid ichi siarad yn uwch neu orwneud mynegiant eich wyneb!
- Byddwch yn greadigol gyda'ch cyfathrebu a sicrhewch fod pawb yn cael eu cynnwys, gan gynnwys unrhyw un sy'n defnyddio iaith arwyddion sydd yn yr ystafell.

Pwysleisiwch fod pawb yn wahanol a bod angen gwahanol fathau o gymorth arnon ni i gyd, mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n bwysig bod pawb yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn y gweithdy hwn.

## Sleid 7

Defnyddiwch un o'r gweithgareddau i dorri'r garw neu un eich hunan er mwyn galluogi'r bobl ifanc yn eich grŵp i gyflwyno eu hunain a dod i adnabod ei gilydd ychydig cyn dechrau'r gweithdy.

## Sleidiau 8 a 9

Efallai eich bod chi am gael syniad sylfaenol o'r hyn mae eich pobl ifanc yn gwybod am y wahanol fathau o gymorth sydd ar gael iddyn nhw. Gall hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer cymhariaeth ar ddiwedd y sesiwn. Gofynnwch i'r bobl ifanc beth ydyn nhw'n ei feddwl am eu hopsiynau gyrfa am y dyfodol yn defnyddio adnodd 0.1 Jariau losin. Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n gwybod beth yw Mynediad at Waith neu'r Lwfans Myfyrwyr Anabl ac a ydyn nhw'n gwybod am eu hawliau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Efallai byddai'n ddefnyddiol i nodi'r ymatebion hyn er mwyn gwneud cymhariaeth ar ddiwedd y sesiwn.

## Sleid 10

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw wedi meddwl am unrhyw opsiynau gyrfa eto.

Gall y cwestiynau dilynol fod yn ddefnyddiol: Beth oeddech chi am fod pan oeddech chi'n blentyn? A ydych chi dal eisiau gwneud hyn? Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n hapusaf?
Pa bynciau ydych chi'n hoffi eu gwneud?

**Mae'n bwysig i atgoffa'r bobl ifanc ei fod yn iawn os nad ydyn nhw'n gwybod eto beth maen nhw am ei wneud ar ôl ysgol neu mewn gwaith. Esboniwch fydd sesiwn heddiw yn rhoi iddyn nhw wybodaeth ddefnyddiol a'r cyfle i siarad â'u cyfoedion ac i ofyn cwestiynau i chi. Pwysleisiwch nad oes angen iddyn nhw wneud unrhyw benderfyniadau pendant heddiw ond bydd sesiwn heddiw yn eu hannog nhw i feddwl am eu camau nesaf.**

## Sleid 11

Dangoswch fideo Byddar yn Gweithio ym Mhobman.

**! Dewiswch un o'r gweithgareddau hyn i dorri'r garw**

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Gêm rhifau | 10 munud | • A 1.1 Cardiau rhifau |
| Gweithgaredd 2 | Gêm enwau swyddi | 10 munud | • A 1.2 Enwau swyddi |
| Gweithgaredd 3 | Gêm Post-its | 10 munud | • Pecyn o Post-its |
| Gweithgaredd 4 | Bingo Pobl | 15 munud | • A 1.3 Dalennau Bingo<br>• Pennau |

## GWEITHGAREDD 1 GÊM RHIFAU

**13–16/16–25 oed**

**10 munud** | **Sleid 7** | **A 1.1 Cardiau Rhifau**

### Camau

1. Cyn dechrau'r gweithgaredd hwn gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cymysgu'r cardiau fel eu bod nhw ddim yn y drefn gywir.

2. Esboniwch i'r grŵp bydd rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd fel tîm er mwyn iddo fod yn llwyddiannus. Hefyd bydd cyfathrebu da yn hanfodol er mwyn gallu cwblhau'r gweithgaredd mor gyflym â phosib!

3. Rhowch y cardiau ar y llawr yn wynebu i lawr. Esboniwch i'r grŵp bod rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i roi'r cardiau o 1 i 20 yn y drefn gywir. Byddwch chi'n amseru'r gweithgaredd a ni fydd yr amserydd yn stopio nes bod y cardiau fod mewn rhes ar y llawr ac mae pawb yn eistedd yn eu seddi.

**Noder:** Os ydych chi'n darparu'r gweithdy llawn heddiw mae'n gweithio'n dda i ail-wneud y gweithgaredd ambell waith trwy'r diwrnod. Bydd laminadu'r cardiau yn eu helpu nhw i bara'n hirach. Anogwch y grŵp i feddwl am ffyrdd o weithio gyda'i gilydd/cyfathrebu'n well fel y gallan nhw wella eu hamser bob tro.

## GWEITHGAREDD 2
## GÊM ENWAU SWYDDI

**13–16/16–25 oed**

10 munud | Sleid 7 | A 1.2 Enwau swyddi

### Camau

1. Gofynnwch i'r bobl ifanc i eistedd mewn cylch – sicrhewch fod pawb yn wynebu ei gilydd.
2. Esboniwch i'r grŵp fod rhaid i bawb feddwl am swydd sy'n dechrau gyda llythyren gyntaf ei enw.
3. Symudwch o amgylch y cylch gyda phob person ifanc yn dweud ei enw a'r swydd, er enghraifft Doctor Donna neu Athro Alun.
4. Yr unig reol yw ni ellir defnyddio'r un swydd dwywaith, dim ots sawl person sydd yn y grŵp sydd ag enw sy'n dechrau gyda'r un llythyren. Os na all rhywun feddwl am swydd, maen nhw'n colli ei dro yn y rownd hynny.
5. Cadwch y gêm i fynd nes bod syniadau pawb wedi dod i ben.

Gallwch ddefnyddio'r rhestr *Enwau swyddi* – adnodd 1.2 i helpu dechrau'r gweithgaredd neu i roi awgrymiadau i'r grŵp os ydy eu syniadau yn mynd yn brin.

## GWEITHGAREDD 3
## GÊM POST-ITS

**13–16/16–25 oed**

10 munud | Sleid 7 | Pecyn o Post-its

### Camau

1. Gofynnwch i'r bobl ifanc i eistedd mewn cylch – sicrhewch fod pawb yn wynebu ei gilydd. Rhowch y pecyn o Post-its i aelodau'r grŵp.
2. Esboniwch i'r grŵp gall pob person gymryd unrhyw nifer o Post-its – hyd at bump yr un. Peidiwch â dweud wrth y grŵp pam mae'r nifer yn bwysig.

3 Unwaith mae gan bawb Post-its, mae'n rhaid i bawb ddweud wrth y grŵp un peth amdanyn nhw ei hunan am bob Post-it maen nhw wedi'i gymryd. Gall hyn fod yn unrhyw beth, er enghraifft ble maen nhw'n byw neu beth yw ei hoff fwyd.

4 Ewch o gwmpas y cylch yn rhoi pob person ifanc ei dro i siarad.

**Noder:** Efallai byddwch chi am gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn a dechrau trwy siarad amdanoch chi eich hunan fel bod y grŵp yn deall sut i chwarae'r gweithgaredd ac i sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n gyfforddus yn rhannu gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain.

## GWEITHGAREDD 4
## BINGO POBL

**13–16/16–25 oed**

15 munud

Slied 7

A 1.3 Dalen Bingo pobl, Pennau

### Camau

1 Rhowch ddalen bingo a phen i bob person ifanc.

2 Gofynnwch iddyn nhw i gymysgu a symud o gwmpas yr ystafell i ofyn i bobl am ateb 'ie' neu 'na' i bob cwestiwn ar eu dalennau.

3 Gall y person sy'n gofyn ysgrifennu enw'r person sy'n ateb yn unig yn y blwch priodol pan mae'r person hynny yn ateb 'ie'.

4 Os ydy'r person yn ateb 'na', mae'n rhaid i'r gofynnwr ofyn cwestiwn arall sydd heb eto dderbyn ateb, neu i symud ymlaen i berson arall.

5 Mae'n rhaid llenwi pob blwch gydag enw person gwahanol o'r grŵp a dim ond un enw ym mhob blwch sydd angen.

6 Atgoffwch y grŵp dydyn nhw ddim yn gallu ysgrifennu eu henwau eu hunain yn unrhyw un o'r blychau!

7 Pan mae person ifanc wedi llenwi pob blwch gydag enw gwahanol ar ei ddalen, mae'n rhaid iddyn nhw weiddi "bingo!"

8 Y person cyntaf i weiddi bingo yw'r enillydd!

**Noder:** Os bydd yn well gan y grŵp, gall pobl weithio mewn parau i wneud y gweithgaredd hwn. Os ydy'r grŵp yn un bach, gallwch chi newid y rheolau i ganiatáu iddyn nhw roi enw rhywun mewn dau flwch, neu fwy, os oes angen. Os ydych chi'n adnabod y grŵp yn dda, efallai byddwch chi am newid y cwestiynau yn y blwch bingo i fod yn benodol i'ch grŵp er mwyn sicrhau bod rhywun yn gallu cael bingo.

A ydych chi'n gwybod unrhyw weithgareddau i dorri'r garw eraill? Gallwch ddefnyddio unrhyw weithgaredd i ddechrau'r gweithdai – ein hunig gyngor yw bod y gweithgaredd yn addas i oed a gallu'r bobl ifanc yn eich grŵp!


PINK
Pink

# CYNLLUN GWERS 2: MEDDU AR EICH BYDDARDOD

## AMCAN Y WERS

I ddeall y manteision sy'n dod o ddatgan eich byddardod mewn lleoliad addysg, hyfforddiant neu waith ac i fod yn ddigon gwybodus i wneud dewis personol i ddatgan eich byddardod mewn mudiad addysg, hyfforddiant neu waith.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- egluro'r manteision sy'n dod o ddatgan eu byddardod
- mynegi eu hanghenion cyfathrebu a chymorth eu hunain.

## BRASLUN Y WERS

Defnyddiwch y nodiadau canllaw isod i esbonio i'r bobl ifanc yn eich grŵp beth mae meddu ar eich byddardod yn ei olygu. Pwysleisiwch fod pobl ifanc byddar yn uniaethu â bod yn fyddar mewn ffyrdd gwahanol ac mae hynny'n berffaith iawn.

Y peth sy'n bwysig i'r bobl ifanc i ddeall o'r adran hwn yw gall fod yn hyderus am eu byddardod fod yn fantais wirioneddol iddyn nhw yn eu bywydau personol a phroffesiynol. Gall ddatgan eu byddardod (er enghraifft, mewn cyfweliadau swydd) a gofyn am y cymorth sydd angen arnyn nhw eu grymuso ac yn sicrhau bod y mwyafrif o swyddi yn hygyrch iddyn nhw.

### Sleid 13

**Meddu ar eich byddardod**
EEsboniwch i'r bobl ifanc fod y sesiwn hwn amdanyn nhw eu hunain, am eu bywydau, eu dyfodol a'u penderfyniadau. Dywedwch wrth y grŵp fod pob un ohonyn nhw yn annibynnol ac fel rhan o'r sesiwn hwn byddwch chi'n edrych ar sut allan nhw 'feddu ar eu byddardod'.

Dechreuwch drwy ofyn i'r grŵp os ydy unrhyw un yn gwybod beth mae 'meddu ar eich byddardod' yn ei olygu? Anogwch i'r bobl ifanc rannu eu syniadau ar beth all hyn ei feddwl.

Esboniwch i'r grŵp fod rhaid iddyn nhw gofio pum peth er mwyn gallu 'meddu ar eu byddardod':

- Gwybod am lefel/math eich byddardod.
- Adnabod pwy ydych chi (a gall hyn newid ar unrhyw adeg ac mae hynny'n iawn).
- Gwybod sut ydych chi'n cyfathrebu.
- Gwybod pa gymorth sydd angen arnoch chi.
- Byddwch yn hyderus ac yn falch i ddweud wrth bobl eich bod chi'n F/fyddar.

## Sleid 14

Esboniwch i'r grŵp fod meddu ar eu byddardod yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Mae bod yn fyddar yn rhan o'u hunaniaeth. Mae gan bawb wahanol rannau o'u hunaniaeth ac mae bod yn fyddar yn rhan o'u hunaniaeth nhw.
- Dangoswch enghraifft o'ch hunaniaeth chi; er enghraifft, rydw i o Abertawe, rydw i'n 26 oed, rydw i'n dwlu ar yfed te, rydw i'n mwynhau chware criced, rydw i'n fyddar, rydw i'n gwisgo cymhorthion clyw, rydw i'n nerfus iawn pan ydw i'n cyflwyno o flaen grwpiau mawr, ayb.
- Esboniwch fod pawb yn uniaethu â bod yn fyddar mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai pobl yn wir yn cofleidio eu byddardod ond mae yna eraill sydd ddim yn hoffi siarad amdano. Mae'n iawn i deimlo'r naill ffordd.
- **Mae rhai pobl yn defnyddio'r term byddar, mae eraill yn defnyddio nam ar y clyw, colled clyw, rhannol fyddar. Mae'n iawn i ddefnyddio unrhyw rhai o'r geiriau hyn.**
- Esboniwch fod yn y gweithdy hwn bydd y gair byddar yn cael ei ddefnyddio i olygu bob ffurf a lefel o golled clyw.

- Esboniwch i'r grŵp ei fod yn bwysig iawn i gofio bod neb arall yn deall eu profiadau o fyddardod, heblaw amdanyn nhw eu hunain. Oherwydd hyn, gall neb gynnig cymorth heb wybod, oddi wrthyn nhw, pwy ydyn nhw, eu dull cyfathrebu dewisol neu ba gymorth sydd angen arnyn nhw.

Os nad ydyn nhw'n dweud wrth bobl eraill eu bod nhw'n fyddar wedyn dydy'r bobl hyn ddim yn gallu newid eu hymddygiad, neu ddull cyfathrebu, neu gydnabod ffyrdd eraill o'u cefnogi.

Esboniwch fod deall hyn yn bwysig iawn er mwyn helpu'r bobl ifanc gyda chynllunio am y dyfodol.

## Sleid 15

Defnyddiwch y gweithgaredd isod i ofyn i'r bobl ifanc am y pethau sy'n gadarnhaol am fod yn fyddar, a'r heriau sy'n rhan o fod yn fyddar. Cofiwch i ailadrodd a chyfeirio yn ôl i'r ddwy sleid flaenorol os ydy'r sgwrs yn dod yn heriol.

Mae'n bwysig cofio gall y gweithgareddau sy'n rhan o gynllun gwers 'Meddu ar eich byddardod' ddod ag emosiynau pwerus allan i'r bobl ifanc yn eich grŵp. Bydd rhaid i chi baratoi am hyn o flaen llaw a sicrhau eich bod chi'n gallu ymateb i unrhyw bryderon yn ofalus. Byddwch yn ystyriol wrth wneud y gweithgareddau a byddwch yn barod i dawelu meddyliau'r bobl ifanc os ydyn nhw'n pryderu am unrhyw heriau ynghylch byddardod sy'n cael eu trafod. Atgoffwch y bobl ifanc bod nod y gweithdy yw i'w dysgu nhw am sut i oresgyn yr heriau hyn a gyda'r cymorth iawn, gellir goresgyn bron bob rhwystr!

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Pethau cadarnhaol a heriau sy'n rhan o fod yn fyddar | 20 munud | • A 2.1 Wynebau yn gwenu<br>• Papur siart droi<br>• Nodiadau Post-it<br>• Pennau |

# GWEITHGAREDD 1 PETHAU CADARNHAOL A'R HERIAU SY'N RHAN O FOD YN FYDDAR

20 munud

Sleid 15

A 2.1 Wynebau, Papur siart droi, Nodiadau, Post-it, Pennau

**13–16/16–25 oed**

## Camau

1. Cyn dechrau'r gweithgaredd, rhowch ddwy ddalen o bapur siart droi ar y wal a rhowch un o'r wynebau sy'n gwenu o A 2.1 ar un ddalen ac wyneb rhwystredig ar y ddalen arall.

2. Tynnwch sylw'r grŵp at y ddwy ddalen wahanol ar y wal ac esboniwch beth mae'r wynebau yn cynrychioli:
   - (wyneb hapus) y manteision (pethau gorau) am fod yn berson ifanc byddar
   - (wyneb rhwystredig) yr heriau sy'n rhan o fod yn berson ifanc byddar.

3. Rhowch bum munud i'r grŵp i feddwl am hyn; anogwch y grŵp i drafod hyn mewn parau neu grwpiau bach.

4. Efallai byddai awgrymu pynciau i'w hystyried yn helpu i annog y sgwrs, fel:
   - siarad â ffrindiau
   - gwersi yn yr ysgol
   - defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
   - mynd allan, siopa, cymryd rhan mewn chwaraeon neu ddiddordebau eraill
   - chwilio am waith neu wneud swydd
   - Iaith Arwyddion Prydain
   - unrhyw beth arall.

5. Gofynnwch i'r grŵp i ysgrifennu'r hyn maen nhw wedi ei drafod ar nodiadau Post-it ac i'w rhoi ar y ddalen gyda'r wyneb priodol.

6. Trafodwch yr ymatebion fel grŵp.

7 Anogwch y grŵp i deimlo'n gadarnhaol am y manteision ac i feddwl am ffyrdd o drosglwyddo'r hyn i'r gweithle, er enghraifft, efallai gall fod yn fyddar eich gwneud chi'n berson mwy rhagweithiol a threfnus oherwydd rydych ch'n gyfarwydd â rhagweld rhwystrau i gyfathrebu.

8 Rhowch ddigon o amser i bobl i siarad am yr heriau a sicrhewch fod y bobl ifanc ddim yn gadael y sesiwn yn teimlo'n ddigalon amdanyn nhw.

9 Esboniwch gall 'meddu ar eich byddardod' helpu'r grŵp i oresgyn yr heriau hyn, trwy fod yn hyderus, datgan eu byddardod a gofyn am y cymorth priodol.

**Noder:** Yn dibynnu ar y grŵp, efallai byddwch chi am addasu'r gweithgaredd hwn ychydig. Mae'r gweithgaredd uchod yn gweithio'n dda gyda grŵp o bobl ifanc sydd yn uniaethu â bod yn fyddar ac yn gyfforddus yn siarad am hyn.

Gall bobl ifanc byddar eraill frwydro â'u hunaniaeth fyddar a ddim yn uniaethu â bod yn 'fyddar' ac, felly, efallai yn teimlo'n anghyfforddus yn siarad am bethau cadarnhaol a heriau.

Os felly, awgrymwn eich bod chi'n dangos y pum testun (neu rannau o fywyd) isod a gofyn iddyn nhw i ddewis un testun am bethau cadarnhaol ac un am heriau i'w trafod gyda'i gilydd fel grŵp. Bydd cyfyngu'r gweithgaredd a gofyn i'r grŵp i feddwl am agwedd o'u bywyd yn helpu i wneud y gweithgaredd hwn i deimlo'n llai llethol a phersonol.

**Cofiwch** gall y gweithgaredd hwn – pa ffordd bynnag a benderfynwch chi i'w cynnig – ddod ag emosiynau pwerus allan i'r bobl ifanc a bydd rhaid ymateb yn ofalus. Byddwch yn ystyriol wrth wneud y gweithgaredd a byddwch yn barod i dawelu meddyliau'r bobl ifanc os ydyn nhw'n pryderu am unrhyw heriau o fyddardod sy'n cael eu trafod. Atgoffwch y bobl ifanc bod nod y gweithdy yw i'w dysgu nhw am sut i oresgyn yr heriau a gyda'r cymorth iawn, gellir goresgyn bron bob rhwystr!

Awgrymwn bum testun i'r grŵp i'w trafod (dewiswch un am y pethau cadarnhaol ac un am yr heriau):

- cyfathrebu
- ysgol
- bywyd cymdeithasol a ffrindiau

- bywyd teulu a chartref
- teithio.

Archwiliwch yr heriau yn gyntaf er mwyn gallu troi'r sgwrs yn gadarnhaol wrth edrych ar y manteision i'r heriau hyn. Gofynnwch i'r bobl ifanc i feddwl am bethau cadarnhaol am bob her maen nhw'n ei awgrymu, cyn i chi roi awgrymiadau iddyn nhw. Gall hyn atgyfnerthu dysgu a'u helpu i ail-lunio a datrys problemau

Dyma rhai pethau cadarnhaol a heriau i helpu gydag awgrymiadau, os bydd angen:

### Heriau

- Efallai cewch chi eich cau allan o sgyrsiau gyda ffrindiau.
- Efallai bydd yn anodd i chi glywed popeth mae eich athro yn ei ddweud.
- Gall gwrando ar gerddoriaeth, y teledu, ffilm yn y sinema fod yn fwy anodd.
- Efallai byddwch chi ddim yn clywed cyhoeddiadau ar y bws neu'r trên.
- Dydy'r mwyafrif o bobl ddim yn gwybod am fyddardod

### Pethau cadarnhaol

- Digwyddiadau am ddim (e.e. gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar).
- 2-i-1 ar docynnau.
- Teithio am ddim neu gyda gostyngiad (e.e. cardiau rheilffordd).
- Rydych hi'n rhan o gymuned ledled y byd.
- Efallai eich bod chi'n darllen gwefusau yn dda iawn.
- Rydych chi'n unigryw.
- Dydy cymdogion swnllyd ddim yn effeithio ar eich cwsg.
- Efallai eich bod chi'n gwybod Iaith Arwyddion Prydain.
- Mae gennych chi fynediad at dechnoleg ardderchog sy'n cysylltu gyda'ch cymhorthion clyw neu fewnblaniadau yn y cochlear.



# CYNLLUN GWERS 3:
# EICH HAWLIAU

## AMCAN Y WERS

Cyflwynwch y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014), a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) i'r bobl ifanc, yn ogystal â chyflwyno cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- esbonio beth yw eu hawliau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014), a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018).
- egluro beth yw addasiadau rhesymol.

## BRASLUN Y WERS

### Sleidiau 17, 18 a 19

Mae'r braslun gwers hwn yn rhoi cyflwyniad byr i hawliau pobl ifanc byddar o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014), a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018). Mae hefyd yn cyflwyno'r cynllun Hyderus o ran Anabledd i gyflogwyr. Mae'n cynnwys addasiadau rhesymol a mathau eraill o gymorth y mae gan bobl ifanc byddar yr hawl i dderbyn o dan y Deddfau hyn, fel gofyn am weithwyr cymorth cyfathrebu yn yr ysgol neu ddehonglwyr yn y gweithle. Gallwch gynnig enghreifftiau eraill o addasiadau rhesymol i egluro'r pwynt.

Efallai byddwch chi am ddarllen mwy am y rheini i'ch helpu chi ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y bobl ifanc.

Y Ddeddf Cydraddoldeb – **www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/disability-discrimination**

Deall eich hawliau – **www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) – **https://gov.wales/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act**

Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol – **www.socialcare.wales/hub/sswbact**

Hawliau plant – **www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/**

Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd – **www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign**

## Sleidiau 20 a 21

Cwblhewch y cwis hwn i chwalu mythau gan ddefnyddio nodiadau i'r gweithgaredd isod.

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Cwis chwalu mythau | 10 munud | • A 3.1 Cwis chwalu mythau<br>• A. 3.2 Atebion chwalu mythau |

## GWEITHGAREDD 1
## MYTH BUSTING QUIZ

**13–16/16–25 oed**

10 munud

Sleid 21

A 3.1 Cwis chwalu mythau, A 3.2 Atebion chwalu mythau

### Camau

1. Gofynnwch i'r bobl ifanc i ffurfio grwpiau bach neu barau. Gallan nhw hefyd ei wneud fel unigolion.
2. Yn eu grwpiau, parau neu fel unigolion, gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen y cwestiynau chwalu mythau neu i'w darllen o'r sgrin a gofynnwch iddyn nhw dicio gwir neu anwir am bob cwestiwn.
3. Pan mae pawb wedi gorffen gyda'u cwestiynau, trafodwch yr atebion fel grŵp (defnyddiwch *Atebion chwalu mythau* – adnodd 3.2 i'ch helpu gyda hyn).



# CYNLLUN GWERS 4: GOBEITHION A BREUDDWYDION GYRFA

## AMCAN Y WERS

I feddwl am ddiddordebau a sgiliau ac i bobl ifanc i ddeall bod ganddyn nhw mwy o sgiliau nag y maen nhw'n sylweddoli. I bobl ifanc byddar i gael uchelgeisiau eang am eu gyrfaoedd.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- egluro'r termau 'cryfder', 'diddordeb' a 'phersonoliaeth'
- adnabod eu cryfderau a'u diddordebau
- deall bod dewisiadau gyrfa synhwyrol yn bodoli lle mae eu cryfderau, diddordebau a'u personoliaeth yn cwrdd.

## BRASLUN Y WERS

Dylunnir y braslun gwers hwn i helpu pobl ifanc i gydnabod eu cryfderau, diddordebau a phersonoliaethau eu hunain. Byddan nhw'n dysgu sut gall hyn eu helpu nhw i ddewis swydd/gyrfa sy'n addas ac yn foddhaol iddyn nhw.

The activities in this lesson plan will help young people understand that they have more skills than they realise and that they can have broad aspirations for their careers.

### Sleid 24

Dechreuwch y sesiwn drwy gyflwyno'r termau 'cryfder', 'diddordeb' a 'phersonoliaeth' a helpwch y bobl ifanc i ddeall beth maen nhw'n eu golygu.

Y ffordd haws i esbonio'r termau hyn yw drwy siarad amdanoch chi eich hunan ychydig! Esboniwch i'r grŵp eich bod chi am siarad am eich cymeriad eich hunan i'w helpu nhw i ddeall y gwahaniaeth rhwng cryfder, diddordeb a phersonoliaeth.

Dywedwch wrth y grŵp:

- **Un peth rydych chi'n gallu ei wneud yn dda.** Esboniwch i'r grŵp pan rydyn ni'n siarad am gryfderau rhywun rydyn ni'n golygu'r pethau maen nhw'n eu gwneud yn dda. Gall fod ei benderfyniad neu ei allu i ddatrys problemau. Neu sgil, fel ei allu i ysgrifennu neu ganu.
- **Un peth rydych chi'n ei fwynhau.** Esboniwch ein bod ni'n galw'r pethau mae rhywun yn mwynhau eu gwneud yn ddiddordebau. Gall fod yn unrhyw beth; does dim rhaid iddo fod yn dalent arbennig, ond rhywbeth mae rhywun yn mwynhau fel darllen, coginio neu ddawnsio.

Esboniwch wrth y grŵp does dim rhaid i chi wneud rhywbeth yn dda er mwyn ei fwynhau, ond weithiau mae pobl hefyd yn fedrus wrth wneud rhywbeth maen nhw'n mwynhau ei wneud. Dyma ble mae cryfderau a diddordebau yn gorgyffwrdd.

- **Nodwedd o'ch personoliaeth.** Esboniwch fod eich personoliaeth yn golygu pa fath o berson ydych chi – eich meddyliau, teimladau a'ch ymddygiadau sy'n eich gwneud chi'n wahanol i bawb arall. Mae'ch personoliaeth yn eich gwneud chi'n unigryw, er enghraifft, efallai bod gennych chi bersonoliaeth gadarnhaol (neu negyddol!), personoliaeth ofalgar, personoliaeth resymol, ayb.

Unwaith rydych chi wedi egluro'r termau hyn, gwnewch yn siŵr bod pawb yn eich grŵp wedi deall y gwahaniaeth, gallwch chi symud ymlaen i weithgaredd 1 neu 2 (yn dibynnu ar ystod oedran y grŵp).

## Sleid 25

Dewiswch weithgaredd sy'n addas i ystod oedran a lefel y grŵp. Bydd y ddau weithgaredd yn cefnogi pobl ifanc i gydnabod eu cryfderau, diddordebau a phersonoliaethau eu hunain a darperir nodiadau canllaw isod.

## Sleidiau 26, 27, 28 a 29

Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn, helpwch y myfyrwyr i ddeall dylai'r swydd/gyrfa maen nhw'n ei ddewis ategu eu personoliaethau a defnyddio eu cryfderau a'u diddordebau. Rydyn ni wedi cynnig amrywiaeth o ddiwydiannau a swyddi yn sleidiau o wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Genedlaethol (Lloegr) (**nationalcareers.service.gov.uk/**) i gyflwyno'r bobl ifanc i'r gyrfaoedd sydd ar gael. Hefyd gallwch edrych ar Gyrfa Cymru am wybodaeth bellach (**gyrfacymru.llyw.cymru**). Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw rhai o'r rolau hyn, neu os oes unrhyw rhai sy'n newydd iddyn nhw, a oes angen arnyn nhw unrhyw eglurhad am unrhyw rhai o'r rolau.

## Sleidiau 30, 31 a 32

Cymerwch amser gyda'r sleidiau hyn a dewch yn gyfarwydd gyda'r animeiddiadau sydd ynddyn nhw, neu efallai hoffech chi newid rhai ohonyn nhw i weddu eich anghenion. Maen nhw'n dangos nifer o bobl y byddwn ni'n eu gweld eto nes ymlaen. Gofynnwch i'r myfyrwyr i ddweud wrthoch chi, fesul person, a ydyn nhw'n meddwl bod y person ar y sleid yn fyddar neu'n clywed. Cyn symud ymlaen i'r person nesaf, gofynnwch iddyn nhw os ydyn nhw'n gallu dweud ym mha ddiwydiant o'r sleidiau blaenorol mae'r swydd yn perthyn er mwyn cadarnhau dysgu a dangos bod ystod eang o ddiwydiannau ar gael i bobl ifanc byddar. Mae hyn yn tueddu i ennyn tipyn o drafodaeth yn y grŵp!

### ! Dewiswch weithgaredd sy'n fwyaf addas i oedran a gallu eich grŵp

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Cryfderau, Diddordebau a Phersonoliaeth | 20 munud | • A 4.1 Cardiau Cryfderau a diddordebau<br>• A 4.2 Cardiau Personoliaeth<br>• A 4.3 Amdanaf i<br>• A 4.4 Proffiliau diwydiannau<br>• Papur siart droi/pennau |
| Gweithgaredd 2 | Bocs clebran | 15 munud | • A 4.5 Bocs clebranx<br>• Papur siart droi/ pennau |

# GWEITHGAREDD 1 CRYFDERAU, DIDDORDEBAU A PHERSONOLIAETH

**16–25 oed**

**20 munud**

**Sleid 25**

**A 4.1 Cardiau Cryfderau/ Diddordebau, A 4.2 Cardiau personoliaeth, A 4.3 Amdanaf i, A 4.4 Proffiliau diwydiannau , Papur siart droi/ pennau**

## Camau

1. Esboniwch i'r grŵp fod rhaid iddyn nhw ddechrau meddwl am ba fath o berson ydyn nhw, fel y gallan nhw archwilio pa fathau o yrfaoedd a all fod yn gyffrous iddyn nhw.

2. Dechreuwch drwy ofyn i'r grŵp a oes unrhyw swyddi rydyn nhw'n credu byddan nhw'n hoffi eu gwneud ac i'w hysgrifennu ar y papur siart droi – dywedwch wrthyn nhw byddech chi'n dod yn ôl i'r rheini nes ymlaen.

3. Atgoffwch y grŵp ei fod yn iawn os nad nhw'n gwybod beth maen nhw am wneud eto! Pwrpas y gweithgaredd hwn yw dysgu amdanoch chi'ch hunain a'ch bod chi'n gallu dewis unrhyw swyddi rydych chi'n meddwl byddai'n ddiddorol i chi, ac nid i ddewis gyrfa.

4. Defnyddiwch *Cryfderau a diddordebau* – adnodd 4.1 a *Personoliaeth – adnodd* 4.2 – gallwch argraffu'r ddalen gyfan a gofyn i'r bobl ifanc i gylchu eu dewisiadau, neu gallwch dorri'r cardiau allan a gofyn i'r bobl ifanc i ddewis tri cherdyn sy'n eu disgrifio nhw orau. Os ydych chi'n torri'r cardiau allan, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n eu hargraffu ar un ochr yn unig a bod digon o gardiau fel bod digon o ddewisiadau i bob person ifanc yn y grŵp.

5. Esboniwch i'r grŵp fod rhaid iddyn nhw feddwl amdanyn nhw eu hunain a dewis eu cryfderau, diddordebau a phersonoliaethau eu hunain (fel yr eglurwyd yn y gweithgaredd blaenorol).

6 Gofynnwch i'r bobl ifanc i edrych ar y cardiau ac i ddewis y nodweddion sy'n eu disgrifio nhw orau – dylen nhw ddewis tri chryfder, tri diddordeb a thair nodwedd o'u personoliaeth (gallan nhw naill ai eu cylchu ar y ddalen neu ddewis tri cherdyn o'r pac). Dau rydyn nhw'n eu gwneud yn dda yn barod ac un rydyn nhw am ei ddatblygu.

7 Gallwch ddefnyddio *Amdanaf i* – adnodd 4.3 a gofyn i'r bobl ifanc i gwblhau eu dewisiadau ar y ddalen. Gallan nhw hefyd gymryd y rheini i ffwrdd gyda nhw ar ôl y gweithdy ac, er enghraifft, eu cymryd gyda nhw pan maen nhw'n ymweld â chynghorwr gyrfaoedd.

8 Gofynnwch i'r grŵp i rannu eu dewisiadau a'r rhesymau dros eu dewis.

9 Esboniwch i'r grŵp fod pawb yn y dosbarth wedi dewis pethau gwahanol, sy'n wych oherwydd mae gwahanol swyddi yn gofyn am wahanol bersonoliaethau a diddordebau.

10 Nawr ewch yn ôl i'r swyddi a oedd y bobl ifanc yn dweud efallai byddan nhw'n hoffi eu gwneud ar ddechrau'r gweithgaredd. Yn cadw mewn cof yr hyn maen nhw wedi dysgu amdanyn nhw eu hunain, a ydyn nhw dal i gredu bod y swyddi hyn dal yn addas i'w personoliaethau a'u diddordebau? A fydd rhaid iddyn nhw ddatblygu rhai o'u sgiliau neu wybodaeth er mwyn dilyn y swyddi hyn? Neu a oes yna unrhyw swyddi/gyrfaoedd a fydd yn fwy addas iddyn nhw neu yn fwy diddorol?

11 Os oes angen, defnyddiwch sleidiau 26–29 ac adnodd 4.4 – *Proffiliau diwydiannau*, i ddangos i'r bobl ifanc pa gryfderau, diddordebau a phersonoliaethau sy'n addas i wahanol sectorau gwaith.

12 Anogwch y bobl ifanc i feddwl am y swyddi efallai gallan nhw eu gwneud yn y sectorau hyn.

## GWEITHGAREDD 2
## BOCS CLEBRAN

13–16 oed

20 munud

Sleid 25

A 4.4 Proffiliau diwydiannau, A 4.5 Bocs clebran, Papur siart droi/pennau

### Camau

1. Esboniwch i'r grŵp eu bod nhw nawr mynd i ddechrau meddwl am ba fath o bobl ydyn nhw, fel y gallan nhw archwilio pa fath o yrfaoedd a all fod yn gyffrous iddyn nhw.
2. Dechreuwch drwy ofyn i'r grŵp a oes yna unrhyw swyddi efallai maen nhw am eu gwneud ac i'w hysgrifennu ar y papur siart droi – esboniwch byddwch chi'n dod yn ôl i'r rhain yn ddiweddarach.
3. Atgoffwch y grŵp ei fod yn iawn i beidio gwybod beth ydyn nhw eisiau ei wneud eto! Pwrpas y gweithgaredd hwn dysgu amdanyn nhw eu hunain a dewis swyddi eu bod nhw'n credu efallai allan nhw fod o ddiddordeb iddyn nhw, ac nid am wneud dewis gyrfa.
4. Esboniwch wrth y grŵp bod rhaid iddyn nhw feddwl amdanyn nhw eu hunain a'u cryfderau, diddordebau a phersonoliaethau eu hunain (fel y esboniwyd yn y gweithgaredd diwethaf).
5. Gofynnwch i'r bobl ifanc i eistedd mewn parau a rhowch focs clebran i bob grŵp i'w greu gyda'i gilydd.
6. Dywedwch wrth bob grŵp bod rhaid iddyn nhw agor un cwestiwn yn y bocs clebran yn eu tro a thrafod yr ateb gyda'u partner.
7. Unwaith mae un pâr wedi gweithio trwy'r cwestiynau i gyd, dylen nhw wedi meddwl amdanyn nhw eu hunain, sut fath o bobl ydyn nhw a pha swyddi/gyrfaoedd all fod o ddiddordeb iddyn nhw.
8. Unwaith mae pob pâr wedi gorffen gweithio trwy'r cwestiynau gofynnwch iddyn nhw rannu rhai o'r pethau rydyn nhw wedi dysgu amdanyn nhw eu hunain a'u partneriaid gyda'r grŵp.

9 Esboniwch i'r grŵp fod pawb yn y dosbarth wedi dewis pethau gwahanol, sy'n wych oherwydd mae gwahanol swyddi yn gofyn am wahanol bersonoliaethau a diddordebau.

10 Nawr ewch yn ôl i'r swyddi a oedd y bobl ifanc yn dweud efallai byddan nhw'n hoffi eu gwneud ar ddechrau'r gweithgaredd. Yn cadw mewn cof yr hyn maen nhw wedi dysgu amdanyn nhw eu hunain, a ydyn nhw dal i gredu bod y swyddi hyn dal yn addas i'w personoliaethau a'u diddordebau? A fydd rhaid iddyn nhw ddatblygu rhai o'u sgiliau neu wybodaeth er mwyn dilyn y swyddi hyn? Neu a oes yna unrhyw swyddi/gyrfaoedd a fydd yn fwy addas iddyn nhw neu yn fwy diddorol?

11 Os oes angen, defnyddiwch sleidiau 26–29 ac adnodd 4.4 – *Proffiliau diwydiannau*, i ddangos i'r bobl ifanc pa gryfderau, diddordebau a phersonoliaethau sy'n addas i wahanol sectorau gwaith.

12 Anogwch y bobl ifanc i feddwl am y swyddi efallai gallan nhw eu gwneud yn y sectorau hyn.



# CYNLLUN GWERS 5: ADEILADU'CH BRAND

## AMCAN Y WERS

I helpu pobl ifanc i gydnabod eu sgiliau meddal ac i ddweud wrthyn nhw am y gwahanol ffyrdd a chyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau yma ymhellach.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- esbonio beth yw sgiliau meddal
- cydnabod eu sgiliau eu hunain
- esbonio pam mae sgiliau meddal yn bwysig i gyflogwr
- rhoi enghreifftiau o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i ddatblygu eu sgiliau meddal

## BRASLUN Y WERS

Mae'r braslun gwers hwn yn esbonio i bobl ifanc beth yw sgiliau meddal a pham maen nhw'n bwysig i gyflogwyr. Mae hefyd yn helpu pobl ifanc i gydnabod eu sgiliau eu hunain ac yn edrych at bwysigrwydd creu argraff gadarnhaol ar gyflogwyr trwy eu brand personol.

Bwriad y wers yw addysgu pobl ifanc byddar am y 'sgiliau meddal' hyn ac i'w helpu nhw i sylweddoli bod ganddyn nhw rai o'r sgiliau hyn yn barod. Ar ddiwedd y wers mae yna rai awgrymiadau o'r hyn gall pobl ifanc ei wneud i ddatblygu eu sgiliau meddal ymhellach ac i fod yn fwy parod ar gyfer y gweithle.

Esboniwch iddyn nhw: "Mae eich personoliaeth, profiadau a'ch sgiliau yn cynnig rhywbeth unigryw – mae gan gyflogwyr lawn cymaint o ddiddordeb yn hyn ag yn eich graddau!"

## Sleid 34

Dechreuwch gyda gweithgaredd yr adran hon drwy ddefnyddio'r cyfarwyddyd isod i ofyn i'r bobl ifanc i adeiladu jiráff neu dŵr, yn dibynnu ar y grŵp oedran. Gallwch hefyd ddewis gweithgaredd arall lle mae gweithio mewn tîm yn sgil hanfodol. I grwpiau hŷn gallwch hefyd ddefnyddio Cylchoedd Profiad yn Cyfrif – adnodd 5.1 gweithgaredd wedi'i amlinellu isod.

## Sleid 35

**Cyflwynwch sgiliau meddal yn erbyn sgiliau caled**

Mae sgiliau meddal yn sgiliau rhyngbersonol sy'n eich galluogi chi i ryngweithio yn effeithiol ac yn gadarnhaol gyda phobl eraill. Yn aml gelwir y sgiliau hyn yn 'sgiliau trosglwyddadwy', sy'n golygu maen nhw'n gallu cael eu defnyddio mewn lot o fathau o swyddi ond hefyd eich bod chi'n gallu eu defnyddio a'u datblygu mewn llefydd eraill heblaw'r gweithle.

Y gwrthwyneb i sgiliau meddal yw "sgiliau caled". Mae sgil caled yn sgil penodol sy'n gallu cael ei ddysgu a'i asesu e.e. siarad Sbaeneg, ysgrifennu rhaglen cyfrifiadur neu weithredu wagen fforch godi.

## Sleid 36

**Rhai sgiliau y mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw:**

- Agwedd gadarnhaol: mae cyflogwyr am i bobl ifanc ddangos brwdfrydedd, ymrwymiad ac egni. Gall pobl ifanc ddangos bod ganddyn nhw agwedd gadarnhaol drwy weithio'n galed a bod yn awyddus i ddysgu a gweithio.
- Sgiliau cyfathrebu: mae hyn yn golygu gwrando yn effeithiol ac ymateb i gwestiynau, yn ogystal â chyfathrebu'n glir mewn ffyrdd eraill. Gall gynnwys rhoi cyfarwyddiadau a derbyn adborth.
- Sgiliau datrys problemau: mae hyn yn golygu peidio â rhoi'r gorau iddi pan ydych chi'n wynebu problem ac yn lle, dod o hyd i atebion i broblemau.

- Rheoli amser: gall hyn golygu cyrraedd gwaith ar amser, ond hefyd trefnu'ch amser i gydbwyso tasgau a chwblhau'r pethau pwysicach yn gyntaf, e.e. mae helpu cwsmer sy'n sefyll wrth y cownter yn fwy pwysig nag anfon e-bost.
- Sgiliau gweithio mewn tîm: mae cael swydd bob amser yn golygu gweithio gyda phobl eraill. Mae busnesau yn dibynnu ar staff i weithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd eu golau. Mae pobl sy'n gweithio'n dda mewn tîm yn gyfeillgar, agor, defnyddiol ac onest.
- Gweithio o dan bwysau: yn aml mae'r byd gwaith yn brysur iawn. Mae'n rhaid cwrdd â therfynau amser a gwneud eich swydd yn dda. Weithiau bydd rhaid cydbwyso lot o dasgau. Mae cyflogwyr eisiau pobl sydd ddim yn cynhyrfu, ond sydd yn bwyllog ac yn gallu gwneud eu swydd yn dda.
- A lot mwy!

Cymharwch hyn gyda'r sgiliau caled y mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw, ac atgoffwch y grŵp eu bod nhw'n gallu defnyddio sgiliau meddal mewn bron pob swydd, tra bod sgiliau caled yn aml yn benodol i fath o swydd neu ddiwydiant, a bod yn bwysig i ddeall fel arfer gallwch chi ddysgu'r sgiliau hyn yn y gweithle. Ond mae gallu dangos sgiliau meddal mewn cyfweliad yn hanfodol!

**Sut i ddatblygu sgiliau meddal**

Efallai bydd rhai pobl ifanc yn y grŵp yn dweud os ydyn nhw'n poeni bod dim digon o sgiliau meddal gyda nhw, neu efallai byddan nhw'n gofyn am beth allan nhw ei wneud i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

Esboniwch i'r grŵp bod yna lot o bethau allan nhw ei wneud i ddatblygu eu sgiliau ymhellach cyn dechrau edrych am waith cyflogedig, mae'r rhain yn cynnwys:

Gwirfoddoli, grwpiau chwaraeon, sgowtiaid, profiad gwaith, helpu mewn canolfannau cymunedol lleol, Dug Caeredin, ayb. Gall pobl ifanc hefyd ystyried gwirfoddoli i Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar trwy edrych yma: www.ndcs.org.uk/our-services/information-for-deaf-young-people/get-involved/

Esboniwch fod y mathau hyn o weithgareddau yn helpu datblygu sgiliau meddal ond hefyd yn edrych yn wych ar CV neu ffurflen gais am swydd a gallwch chi eu defnyddio fel enghreifftiau mewn cyfweliad am swydd.

**! Dewiswch weithgaredd sy’n addas i oed a gallu eich grŵp.**

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Adeiladu jiráff | 20 munud | • Papurau newydd neu ddalenau papur A4<br>• Tâp selo |
| Gweithgaredd 2 | Adeiladu tŵr | 20 munud | • Sgiwerau pren<br>• Blu Tack |
| Gweithgaredd 3 | Profiad yn cyfrif | 20 munud | • Papur siart droi<br>• Aroleuyddion<br>• A 5.1 Cylchoedd |

## GWEITHGAREDD 1 ADEILADU JIRÁFF

**13–16 oed**

20 munud

Sleid 34

Papurau newydd neu ddalennau papur, Tâp selo

### Camau

1. Esboniwch i’r grŵp eu bod nhw’n mynd i wneud gweithgaredd a fydd yn eu helpu nhw i ddeall beth yw sgiliau meddal a sut maen nhw’n cael eu defnyddio yn y gwaith.
2. Rhannwch y grŵp i grwpiau llai o 3-4 person.
3. Rhowch lot o bapur(newydd) a thâp selo i bob grŵp.
4. Esboniwch i’r grŵp fod rhaid iddyn nhw weithio gyda’i gilydd fel tîm i adeiladu jiráff allan o’r papur(newydd).
5. Bydd ganddyn nhw 20 munud i wneud hyn a dylai’r jiráff gallu sefyll lan ar ben ei hunan ar ddiwedd yr amser hynny!
6. Dywedwch wrth y grŵp i feddwl am enw am eu jiráff ac i esbonio pam dewison nhw’r enw yna!
7. Ar ddiwedd yr 20 munud, gofynnwch i bob grŵp i gyflwyno enw eu jiráff a pham dewison nhw’r enw yna a gofynnwch iddyn nhw i siarad am ba sgiliau a ddefnyddion nhw, yn eu barn nhw.

8 Esboniwch i'r grŵp sut defnyddion nhw'r sgiliau o'r rhestr uchod (y prif sgiliau y mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw) yn ystod y gweithgaredd hwn, e.e. 'agwedd gadarnhaol' a 'gwaith tîm', h.y. efallai i ddechrau ymddangosodd y dasg hon yn anodd ond doedd neb yn rhoi'r gorau iddi; roedd gan bawb agwedd gadarnhaol a brwdfrydig ac yn barod i roi cynnig ar rywbeth newydd!

## GWEITHGAREDD 2
## ADEILADU TWR

**16–25 oed**

**20 munud** | **Sleid 34** | **Sgiwerau pren, Blu Tack**

### Camau

1. Esboniwch i'r grŵp eu bod nhw'n mynd i wneud gweithgaredd a fydd yn eu helpu nhw i ddeall beth yw sgiliau meddal a sut maen nhw'n cael eu defnyddio yn y gwaith
2. Rhannwch y grŵp i grwpiau llai o 3-4 person
3. Rhowch lot o sgiwerau a Blu Tack i bob grŵp.
4. Esboniwch i'r grŵp bod rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd fel tîm i adeiladu tŵr. Y grŵp gyda'r tŵr uchaf bydd yn ennill (**noder:** mae'n rhaid i'r tŵr sefyll ar ben ei hun, heb gymorth!)
5. Bydd ganddyn nhw 20 munud i wneud hyn ac ar ddiwedd yr amser hynny dydyn nhw ddim yn gallu cefnogi/cyffwrdd â'u tŵr.
6. Esboniwch i'r grŵp sut a ddefnyddion nhw'r sgiliau o'r rhestr uchod (y prif sgiliau y mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw) yn ystod y gweithgaredd hwn, e.e. 'agwedd gadarnhaol' a 'gwaith tîm', h.y. er mwyn i'r dasg hon lwyddo, roedd rhaid i'r bobl ifanc weithio gyda'i gilydd i feddwl am y ffordd orau o adeiladu'r tŵr – roedd rhaid i'r grŵp dibynnu ar ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd er mwyn ennill y gweithgaredd!

# GWEITHGAREDD 3
# PROFIAD YN CYFRIF

**20 munud** | **Sleid 34** | **Papur siart droi, Aroleuyddion, A 5.1 Cylchoedd**

## 16–25 oed

## Camau

1. Esboniwch i'r grŵp fod, yn aml, pan maen nhw'n gwneud cais am swydd, gall pobl werthu eu hunain am lai na'u gwerth. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu'r grŵp i feddwl am y sgiliau sydd ganddyn nhw yn barod a sut i'w defnyddio nhw wrth edrych am waith!
2. Rhannwch y grŵp i grwpiau llai o 3-4 person.
3. Rhowch bapur a phennau aroleuo i'r grwpiau.
4. Esboniwch i'r grŵp bod rhaid iddyn nhw ddarlunio tri chylch yn gorgyffwrdd ar y papur (fel yn *Cylchoedd* – adnodd 5.1).
5. Esboniwch fod y tri chylch yn cynrychioli tair nodwedd wahanol:
   - Hobïau a diddordebau
   - Profiad gwaith
   - Gwirfoddoli neu waith yn y gymuned
6. Ym mhob cylch dylai'r bobl ifanc ysgrifennu enghreifftiau o bethau maen nhw wedi eu gwneud a'r sgiliau neu'r nodweddion rydyn nhw wedi'u datblygu wrth wneud y gweithgaredd hynny. Er enghraifft, efallai bod rhywun sydd wedi cael profiad gwaith wedi magu nodweddion rheoli amser a bod yn ddibynadwy ac wedi dysgu sgiliau TG.
7. Dylai unrhyw sgiliau neu nodweddion sy'n cael eu hailadrodd cael eu hysgrifennu yn yr adrannau sy'n gorgyffwrdd.
8. Yn defnyddio pen aroleuo, dylai pobl ifanc aroleuo'r sgiliau a nodweddion maen nhw'n meddwl bod cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw. Gall y rheini fod mewn unrhyw un o'r tri chylch.

9. Gofynnwch i’r bobl ifanc i rannu eu canfyddiadau ac i siarad am rai o’r nodweddion allweddol mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw, fel natur ddibynadwy, sgiliau trefnu a chyfathrebu da.

10. Tynnwch sylw i’r ffaith bod, hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi gweithio erioed, mae ganddyn nhw lot o sgiliau a nodweddion a fydd yn drosglwyddadwy ac o werth mewn cyflogaeth yn y dyfodol!



BACK TO CONTENTS

# CYNLLUN GWERS 6: OPSIYNAUÔL-16

## AMCAN Y WERS

I ddweud wrth bobl ifanc am yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ac i'w helpu nhw i ddeall bod cyrraedd uchelgais gyrfa yn golygu taith trwy opsiynau hyfforddi neu addysg.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- rhestru'r amrywiaeth o opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddyn nhw
- esbonio eu bod nhw'n gyfrifol am wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu haddysg neu hyfforddiant
- deall bod angen symud ymlaen ar daith trwy hyfforddiant neu addysg er mwyn gallu cyrraedd rhai gyrfaoedd/swyddi.

## BRASLUN Y WERS

Mae'r braslun gwers hwn yn dweud wrth bobl ifanc am yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ar ôl iddyn nhw orffen ysgol. Mae'r gweithgareddau a'r wybodaeth yn pwysleisio nad yw'n bwysig pa opsiwn maen nhw'n ei ddewis – gall pob llwybr arwain at gyflogaeth.

### Sleidiau 39 a 40

Defnyddiwch Weithgaredd 1 – Mynd ar daith i egluro y gall taith funud olaf fod llawn straen os nad ydych chi'n cynllunio o flaen llawn a bod nifer o bethau i'w hystyried.

### Sleidiau 41 a 42

Cymharwch hyn gyda'r llwybr mwy digyffro, lle mae gennych chi amser ac yn gallu rhoi sylw i'r camau nesaf. Y neges bwysig yw nad yw byth yn rhy hwyr i ddechrau meddwl am eich opsiynau er mwyn cael digon o amser i archwilio popeth!

## Sleidiau 43–51

Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r opsiynau posib sydd ar gael i bobl ifanc. Defnyddiwch y sleidiau hyn i ddangos trosolwg o nifer o gamau gall pobl eu cymryd nesaf ar eu teithiau.

Gyrfa Cymru – **gyrfacymru.llyw.cymru** (am wybodaeth am brentisiaethau, hyfforddeiaethau, cyrsiau, gwirfoddoli a phrofiad gwaith

Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau – **llyw.cymru/prentisiaethau-sgiliau-a-hyfforddiant**

Cymru'n Gweithio – **cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/prentisiaethau-ar-gyfer-pobl-anabl**

Prospects UK – **www.prospects.ac.uk/**

## Sleid 52

Cynhaliwch y gweithgaredd yn defnyddio'r lluniau a'r olion traed sy'n cysylltu pob un. Gofynnwch i'r bobl ifanc i ddewis man cychwyn ac, unwaith maen nhw'n barod, beth ydyn nhw'n meddwl byddan nhw'n ei wneud nesaf. Eglurwch nad yw teithiau gyrfa i gyd yr un peth, a gallwch ddewis gwahanol opsiynau ar adegau gwahanol.

## Sleidiau 53, 54 a 55

Opsiwn arall yw teithio. Dangoswch y lluniau i'r bobl ifanc a gofynnwch iddyn nhw ddychmygu ble mae'r tirnodau. Mae yna hefyd gynlluniau blwyddyn i ffwrdd yn gwirfoddoli i bobl gydag adnoddau ariannol cyfyngedig fel bod pob person ifanc yn teimlo y gallan nhw feddwl am yr opsiwn hwn.

**Noder:** defnyddiwch y sleidiau hyn yn hyblyg – efallai bod gennych chi gyngor gyrfaoedd yn barod i ychwanegu i'r cynlluniau hyn, efallai hoffech chi ddefnyddio'r gweithgareddau mewn trefn wahanol – mae hynny i gyd yn iawn!

### Sleid 56

Rydyn ni wedi rhoi dwy enghraifft o deithiau gyrfa mae pobl fyddar wedi'u cymryd. Defnyddiwch y rhain i egluro'r pwynt, ac i atgoffa'r bobl ifanc y byddwn ni'n dod yn ôl i deithiau gyrfa yn ddiweddarach yn y sesiwn.

### Sleid 57

Gallwch chi hefyd ddewis y *Cwis Gyrfaoedd* – adnodd 6.3, neu beidio. Fe'i cynlluniwyd i dorri'r sesiwn gan fod yna lot o wybodaeth i rannu!

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Mynd ar daith | 15 munud | • PP 39–42 |
| Gweithgaredd 2 | Opsiynau ôl-16 (A) | 15 munud | • A 6.1 Darluniau ôl-16<br>• A 6.2 Olion traed ôl-16 PP 43–51 |
| | Opsiynau ôl-16 (B) | 15 munud | • A6.1 Darluniau ôl-16 PP 43–51 |
| Gweithgaredd 3 | Teithio'r byd | 10 munud | • PP 53–55 |
| Gweithgaredd 4 | Cwis gyrfaoedd | 5 munud | • R 6.3 Cwis (dewisol) PP 57 |

## GWEITHGAREDD 1
## MYND AR DAITH

**13–16/16–25 oed**

**10 munud**

**Sleidiau 39–42**

**A 6.1 Darluniau ôl-16**

### Camau

1. Dangoswch i'r myfyrwyr Gyflwyniad Sleid 39.
2. Gofynnwch i'r bobl ifanc i ddychmygu'r sefyllfa ganlynol: mae'r ysgol wedi'u galw nhw i wasanaeth i gyhoeddi bod pawb yn mynd ar daith ysgol yfory. Bydd y daith yn para wythnos ac i wlad dramor (ychwanegwch wlad o'ch dewis chi i wneud y sefyllfa yn fyw diddorol!). Dangoswch sleid 40 a gofynnwch i'r bobl ifanc os ydyn nhw'n meddwl bydd yn bosib gadael ar y daith hon y diwrnod nesaf? Beth sydd angen ei ystyried?

3 Esboniwch i'r grŵp efallai bydd yn bosib gwneud hyn ond pe bydden ni'n mynd ar daith fel hyn heb baratoi, bydd ein hopsiynau yn gyfyngedig.

- Efallai does dim pasbort dilys gennyn ni, felly byddwn ni ddim yn gallu mynd i wlad arall hyd yn oed. Byddai'n rhaid i ni aros yn y DU.
- Efallai bydd angen fisa arnon ni neu imiwneiddiadau i fynd i rai gwledydd – byddwn ni ddim yn gallu mynd i'r llefydd hynny hebddyn nhw.
- Efallai bydd rhaid i ni gymryd pethau penodol gyda ni nad ydyn ni'n berchen arnyn nhw ond ni fyddai digon o amser inni fynd i siopa.
- Ni fyddai lot o amser i bacio felly efallai byddwn ni'n anghofio pethau oherwydd ein bod ni ar frys.
- Ni fyddai digon o amser i ymchwilio'r wlad lle rydyn ni'n mynd neu i gynllunio ein taith, felly byddwn ni'n cyrraedd heb deithlen ac efallai byddwn ni'n colli'r cyfle i weld atyniadau i dwristiaid gwych.

4 Anogwch y myfyrwyr i feddwl am unrhyw bethau efallai byddwn nhw'n colli neu a fyddai'n mynd o'i le oherwydd diffyg cynllunio o flaen llaw? Ysgrifennwch bopeth ar bapur siart droi neu fwrdd gwyn er mwyn creu map gweledol o'r holl bethau mae'n rhaid i chi feddwl amdanyn nhw o flaen llaw.

5 Awgrymwch fyddai treulio amser i greu cynllun cyn teithio yn ffordd well o gynllunio taith lwyddiannus a dangoswch sleidiau 41–42.

6 Esboniwch i'r grŵp fod taith gyrfa yn debyg i'r daith rydych chi newydd siarad amdani. Gall y bobl ifanc aros nes iddyn nhw adael ysgol cyn meddwl am sut i ddechrau eu taith gyrfa, ond maen nhw'n llawer mwy tebygol o fod yn llwyddiannus os ydyn nhw'n dechrau cynllunio nawr, hyd yn oed os yw'n teimlo yn bell i ffwrdd!

7 Os ydyn nhw'n dechrau meddwl am eu gyrfaoedd nawr a'r pethau mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud er mwyn llwyddo maen nhw'n llawer mwy tebygol o gyrraedd yn y swydd rydyn nhw am ei gael!

8 Esboniwch i'r grŵp eich bod chi nawr am ddweud wrthyn nhw am yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddyn nhw i'w helpu nhw i feddwl am eu taith gyrfa

# GWEITHGAREDD 2
# OPSIYNAU ÔL-16 (A)

**13–16 oed**

15 munud | Sleidiau 43-51 | A 6.1 Darluniau ôl-16, A 6.2 Olion traed ô-16

## Camau

1. Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio yn dda gydag ystod oedran iau, i'w defnyddio ochr yn ochr â *Darluniau ôl-16* – adnodd 6.1 ac i ddangos yr opsiynau ôl-16 mewn ffordd fwy atyniadol.
2. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw wedi meddwl yn barod am beth maen nhw am ei wneud ar ôl gadael ysgol.
3. Rhowch y darluniau ar y llawr a defnyddiwch yr olion traed i'w 'cysylltu'.
4. Dangoswch i'r bobl ifanc sut mae un opsiwn yn dilyn y llall – gallwch neidio o un o'r olion traed i'r llall i ddangos eich pwynt!
5. Mae'n bwysig i ddangos i'r bobl ifanc does dim rhaid i'r olion traed ddilyn llwybr penodol – mae'n iawn i newid eich meddwl a neidio ar draws i opsiwn gwahanol os ydych chi eisiau neu fynd yn ôl i opsiwn cynt os ydych chi am ennill mwy o gymwysterau.
6. Dangoswch i'r grŵp hefyd ei fod yn bosib dilyn gwahanol olion traed i gyrraedd yr un canlyniad h.y. cyflogaeth.
7. Ar ôl i chi esbonio'r gwahanol opsiynau ac wedi pwysleisio hyblygrwydd, esboniwch eu bod nhw'n gallu gwirfoddoli ar unrhyw adeg yn ystod y daith addysg neu yrfa. Gall gael ei gysylltu â phob opsiwn ac mae'n gyfle gwych i ddysgu sgiliau a phrofiad newydd er mwyn cynyddu hyder.
8. Anogwch y grŵp i drafod a gofyn cwestiynau am yr opsiynau. Efallai byddai'n help i siarad am eich addysg a'ch taith gyrfa eich hunan nawr fel esiampl i'r grŵp.

**Noder:** Cyn symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf, dangoswch *Gynllun gweithredu gyrfa* – adnodd 8.1 i'r bobl ifanc ac esboniwch byddwch chi'n edrych yn fwy manwl ar hyn cyn bo hir.

- Esboniwch i'r grŵp, cyn iddyn nhw ddechrau eu gyrfaoedd bydd rhaid iddyn nhw feddwl am y pethau y bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud ac am bryd bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud.

- Esboniwch fod y cynllun gweithredu rydych chi'n ei rhoi iddyn nhw yn adnodd gallan nhw ei ddefnyddio i gynllunio eu taith a'r pethau y bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud.
- Bydd cynllun pawb yn edrych yn wahanol oherwydd mae pawb am wneud pethau gwahanol a hefyd mae yna gymaint o wahanol lwybrau i swydd benodol. Ond y peth pwysig yw dechrau cynllunio yn gynnar.
- Esboniwch eich bod chi am edrych ar y cynllun gweithredu unwaith eto ar ddiwedd y gweithdy.

## GWEITHGAREDD 2
## OPSIYNAU ÔL-16 (B)

**13–16 oed**

15 munud

Sleidiau 43-51

A 6.1 Darluniau ôl-16

### Camau

1. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw wedi meddwl yn barod am beth maen nhw am ei wneud ar ôl gadael ysgol.
2. Dangoswch y darluniau ôl-16 i'r grŵp a siaradwch am sut maen nhw wedi'u 'cysylltu' h.y. sut allan nhw symud ymlaen o un opsiwn i'r un nesaf.
3. Mae'n bwysig esbonio i'r grŵp does dim rhaid iddyn nhw ddilyn un "llwybr" trwy'r opsiynau - mae'n iawn iddyn nhw newid eu meddwl a symud i opsiwn addysg neu hyfforddiant arall. Neu i fynd yn ôl i opsiwn penodol os ydyn nhw am ennill mwy o gymwysterau ar unrhyw adeg yn eu gyrfa.
4. Dangoswch i'r grŵp hefyd ei fod yn bosib dewis opsiynau gwahanol i gyrraedd yr un canlyniad h.y. cyflogaeth.
5. Ar ôl i chi esbonio'r gwahanol opsiynau ac wedi pwysleisio hyblygrwydd, siaradwch yn fyr am wirfoddoli.
6. Esboniwch eu bod nhw'n gallu gwirfoddoli ar unrhyw adeg yn ystod y daith addysg neu yrfa a gall hyn fod yn gyfle gwych i ddysgu sgiliau a phrofiad newydd er mwyn cynyddu hyder.
7. Anogwch y grŵp i drafod a gofyn cwestiynau am y wahanol opsiynau. Efallai byddai'n help i siarad am eich addysg a'ch taith gyrfa eich hunan nawr fel esiampl i'r grŵp.

**Noder:** Cyn symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf, dangoswch Gynllun gweithredu gyrfa – adnodd 8.1 i'r bobl ifanc ac esboniwch byddwch chi'n edrych yn fwy manwl ar hyn cyn bo hir.

- Esboniwch i'r grŵp, cyn iddyn nhw ddechrau eu gyrfaoedd bydd rhaid iddyn nhw feddwl am y pethau y bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud ac am bryd bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud.
- Esboniwch fod y cynllun gweithredu rydych chi'n ei rhoi iddyn nhw yn adnodd gallan nhw ei ddefnyddio i gynllunio eu taith a'r pethau y bydd yn rhaid iddyn nhw eu gwneud.
- Bydd cynllun pawb yn edrych ychydig yn wahanol oherwydd mae pawb am wneud pethau gwahanol a hefyd mae yna gymaint o wahanol lwybrau i swydd benodol. Ond y peth pwysig yw dechrau cynllunio yn gynnar.
- Esboniwch eich bod chi am edrych ar y cynllun gweithredu unwaith eto ar ddiwedd y gweithdy.

## GWEITHGAREDD 3
## TEITHIO'R BYD

**13–16/16–25 oed** | 10 mins | Slides 43-51

### Steps

**Noder:** Cynlluniwyd gweithgareddau 3 a 4 i fod yn weithgareddau byr, hwyliog i orffen cynllun gwers opsiynau ôl-16. Dewiswch y gweithgaredd mwyaf addas i'ch grŵp chi – os oes gennych chi ddigon o amser ac os ydych chi'n meddwl byddan nhw'n awyddus i'w wneud, wrth gwrs gallwch chi gynnig y ddau weithgaredd.

1. Yn ogystal â'r opsiynau ôl-16 'arferol', gallwch esbonio i'r grŵp fod teithio yn opsiwn arall. Mae llawer o bobl ifanc yn tueddu i wneud hyn ar ôl cwblhau eu Lefelau A a chyn dechrau'r brifysgol neu waith.
2. Tra ydych chi'n teithio, gallwch chi hefyd wirfoddoli neu ddod o hyd i waith cyflogedig am gyfnodau byr – bydd hyn i gyd yn ychwanegu at eich profiad a set sgiliau.

3 I orffen yr adran ôl-16 rydyn ni wedi cynnwys gweithgaredd hwyliog yn gysylltiedig â theithio.

4 Dangoswch sleidiau 54 a 55. Esboniwch i'r grŵp fod pob llun ar y sleid yn dirnod enwog rhywle yn y byd.

5 Dangoswch y sleidiau yn eu tro i'r grŵp a gofynnwch iddyn nhw i ddychmygu ym mha wlad mae'r tirnod.

6 I wneud y gweithgaredd yn fwy hwyliog gallwch rannu'r grŵp yn barau a bydd y pâr gyda'r nifer fwyaf o atebion cywir yn ennill gwobr fach!

## GWEITHGAREDD 4
## CWIS GYRFAOEDD

**13–16/16–25 oed**

5 munud | Sleid 57 | A 6.3 Cwis gyrfaoedd

### Camau

**Noder:** Cynlluniwyd gweithgareddau 3 a 4 i fod yn weithgareddau byr, hwyliog i orffen cynllun gwers opsiynau ôl-16. Dewiswch y gweithgaredd mwyaf addas i'ch grŵp chi – os oes gennych chi ddigon o amser ac os ydych chi'n meddwl byddan nhw'n awyddus i'w wneud, wrth gwrs gallwch gynnig y ddau weithgaredd.

1 Darllenwch gwestiynau'r cwis yn uchel i'r bobl ifanc.

2 I bob cwestiwn, darllenwch yr atebion a gofynnwch i'r bobl ifanc i godi eu dwylo am yr opsiwn maen nhw'n meddwl sy'n gywir.

3 Anogwch drafodaeth a chwestiynau ar ôl y cwis.



# CYNLLUN GWERS 7: CEFNOGAETH A THECHNOLEG

## AMCAN Y WERS

I wneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r gefnogaeth a'r dechnoleg y mae ganddyn nhw hawl i ofyn amdanyn nhw er mwyn gallu cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- rhestru'r amrywiaeth o gefnogaeth a thechnoleg sydd ar gael iddyn nhw
- esbonio pa opsiynau cymorth efallai byddai'n gweithio'n well mewn gwahanol sefyllfaoedd.

## BRASLUN Y WERS

Bydd y cynllun gwers hwn yn eich helpu chi i wneud pobl ifanc byddar yn fwy ymwybodol o'r opsiynau cymorth sydd ar gael iddyn nhw mewn hyfforddiant a chyflogaeth – mae'r rhain yn cynnwys opsiynau cyllid (e.e. Mynediad at Waith), technoleg a chymorth cyfathrebu.

### Sleidiau 59, 60 a 61

Dechreuwch gyda'r gweithgaredd fel yr amlinellir yn y canllaw isod. Dydy lot o bobl ifanc ddim yn gwybod am yr opsiynau cymorth sydd ar gael, felly mae'n bwysig i ddweud wrthyn nhw ei fod yn iawn eu bod nhw ddim yn gwybod a byddwch chi'n ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda nhw.

## Diffyniadau:

**25% o amser ychwanegol** – wedi'i drefnu gan Gydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) mewn arholiadau ac yn seiliedig ar sgorau unigolion mewn profion safonedig (Cymwysterau Cymru), ni fydd pob ymgeisydd yn gymwys.

**Athro Plant Byddar** – gweithiwr proffesiynol cymorth synhwyraidd sy'n arbenigo mewn dysgu disgyblion byddar.

**Trosglwyddiad lleferydd-i-destun (STTR)** – hefyd yn cael ei alw'n palanteipydd, yn capsiynu yr hyn sy'n cael ei ddweud yn fyw i gael ei arddangos ar sgriniau cyfrifiadur.

**Mwyadur Ffôn** – i wneud sŵn eich ffôn yn uwch fel y gallwch chi glywed y siaradwr yn well.

**Isdeitlau** – testun sy'n cael ei arddangos ar sgrin i ddangos yr hyn sy'n cael ei ddweud.

**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod** – ar gyfer y rheini sy'n treulio unrhyw amser gyda pherson ifanc byddar; gall helpu torri rhwystrau cyfathrebu rhwng pobl fyddar a phobl sy'n clywed.

**Gwefus-siaradwr** – wedi'i hyfforddi fel ei fod yn hawdd darllen eu gwefusau trwy ailgynhyrchu lleferydd yn eglur ond yn ddistaw.

**Agenda neu drawsgrifiad** – gwybodaeth ar yr hyn a fydd yn cael ei drafod neu a gafodd ei drafod wedi'i ddarparu mewn ffurf ysgrifenedig.

**Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL)** – gweithiwr proffesiynol cymwysedig i hyrwyddo cyfathrebu rhwng BSL a Saesneg/Cymraeg, fel arfer yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau ffurfiol fel gweithleoedd, cyfarfodydd, cynadleddau a phrifysgolion.

**Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu (GCC)** – gweithiwr proffesiynol mewn cyfathrebu sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio mewn addysg i gefnogi myfyrwyr byddar yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gwrdd ag anghenion neu ddymuniadau unigolyn.

**Cymerwr Nodiadau (Ysgrifenedig neu Electronig)** – gweithiwr proffesiynol a fydd yn cynhyrchu nodiadau i'r rheini na allan nhw gymryd nodiadau eu hunain.

**Cymorth radio** – technoleg sy'n cysylltu i gymorth clyw neu fewnblaniad yn y cochlear sy'n eich galluogi chi i glywed llais siaradwr yn fwy clir, yn lleihau sŵn cefndir.

## Sleidiau 62 a 63

Mae'r sleidiau hyn yn cynnig gwybodaeth bellach ar Lwfans Myfyrwyr Anabl a Mynediad at Waith.

Efallai hoffech chi ddod yn fwy cyfarwydd â'r rhain trwy ddarllen amdanyn nhw ar y gwefannau canlynol:

Mynediad at Waith – **www.gov.uk/mynediad-at-waith**

Lwfans Myfyrwyr Anabl – **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/myfyrwyr-israddedig/myfyrwyr-newydd/pa-gymorth-ariannol-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl.aspx**

## Sleid 64

Gweithgaredd dewisol i fywiogi'r wybodaeth rydych chi wedi ei rhannu. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw'n meddwl bod yr atebion i'r cwestiynau yn wir neu'n anwir. Defnyddiwch y nodiadau mewn *Cwis Technoleg* – adnodd 7.2 i'ch helpu chi.

## Sleid 65

Gweithgaredd dewisol arall, yn dibynnu ar eich grŵp. Gofynnwch i'r grŵp i roi gyda'i gilydd yr opsiynau cymorth cyfathrebu posib sy'n cyd-fynd â'r sefyllfaoedd yn defnyddio *Sefyllfaoedd ariannu a chymorth* – adnodd 7.4 ac i rannu'u syniadau fel rhan o drafodaeth ehangach.

## Sleidiau 66–75

Mae hyn yn dod â phob elfen o'r sesiwn ynghyd gyda'r astudiaethau achos, dangos eu byddardod, teithiau gyrfa ac awgrymiadau i bobl ifanc. Cymerwch amser gyda'r rhain i ddangos bod teithiau yn wahanol a bod gwahanol bobl yn defnyddio gwahanol fathau o gymorth. Rydyn ni hefyd wedi creu nifer o astudiaethau achos fideo sydd i'w gweld ar **www.ndcs.org.uk/dwetoolkit** os ydych chi am eu defnyddio.

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Cymorth cyfathrebu | 10 munud | • A 7.1 Cardiau Cymorth cyfathrebu |
| Gweithgaredd 2 | Cwis gyrfaoedd | 5 munud | • A 7.2 Cwis technoleg<br>• A 7.3 Atebion technoleg<br>• A 7.4 Cardiau Gwir/Anwir |
| Gweithgaredd 3 | Gweithgaredd sefyllfaoedd | 15 munud | • A 7.5 Sefyllfaoedd |

## GWEITHGAREDD 1 CYMORTH CYFATHREBU

**13–16/16–25 oed**

10 munud

Sleid 59

A 7.1 Cardiau cymorth, cyfathrebu

### Camau

1. Rhowch y cardiau lluniau a chardiau geiriau o'r *Cardiau cymorth cyfathrebu* – adnodd 7.1 wyneb i lawr ar y llawr.
2. Esboniwch i'r grŵp fod y lluniau ar y cardiau yn cynrychioli gwahanol opsiynau cymorth cyfathrebu a all eu helpu nhw ar ryw bryd ar eu taith addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
3. Esboniwch i'r grŵp fod rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i roi'r cardiau lluniau gyda'r enw cywir.
4. Pan mae'r cardiau i gyd gyda'u partner cywir gofynnwch i'r grŵp a oes yna unrhyw opsiynau cymorth doedden nhw ddim wedi clywed amdanyn nhw yn barod.
5. Defnyddiwch y rhestr i egluro'r gwahanol opsiynau os oes angen.

## GWEITHGAREDD 2 CWIS GYRFAOEDD

**13–16/16–25 oed**

5 munud

Sleid 64

A 7.2 Cwis technoleg, A 7.3 Atebion technoleg A 7.4 Cardiau Gwir/Anwir

### Camau

1. Cyn dechrau'r gweithgaredd sicrhewch eich bod chi wedi rhoi'r *Cardiau Gwiw/Anwir* - adnodd 7.4 ar y waliau, gyferbyn a'i gilydd.
2. Darllenwch bob cwestiwn yn ei dro a gofynnwch i'r grŵp i sefyll o dan yr arwydd Anwir os ydyn nhw'n credu bod y cwestiwn yn anghywir ac i sefyll o dan yr arwydd Gwir os ydyn nhw'n credu bod y cwestiwn yn gywir.
3. Defnyddiwch y nodiadau yn *Cwis technoleg* – adnodd 7.2 er mwyn rhoi mwy o esboniad i bob cwestiwn technoleg.

Efallai hoffech chi argraffu'r atebion a'u rhoi i'r bobl ifanc i gymryd gyda nhw ar ôl y gweithdy. Mae yna wybodaeth ddefnyddiol yna!

## GWEITHGAREDD 3 GWEITHGAREDD SEFYLLFAOEDD

**16–25 oed**

15 munud

Sleid 65

A 7.5 Cardiau sefyllfaoedd, A 7.1 Cardiau cymorth cyfathrebu

### Camau

1. Esboniwch i'r grŵp eich bod chi am edrych ar wahanol leoedd neu sefyllfaoedd lle gall cyfathrebu fod yn her yn y gweithgaredd hwn. Gyda'ch gilydd rydych chi am edrych ar sut all dechnoleg a chymorth cyfathrebu helpu'r bobl ifanc yn y sefyllfaoedd hynny.

2. Rhannwch y grŵp yn ddau grŵp llai (yn dibynnu ar rifau).
3. Yn eu grwpiau, rhowch un sefyllfa i'r bobl ifanc o bob un o'r lleoedd 'Prifysgol', 'Prentisiaeth' a 'Gwaith'.
4. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am ba gymorth gall gael ei ddefnyddio ym mhob sefyllfa i wella cyfathrebu – gallwch ddosbarthu'r *Cardiau cymorth cyfathrebu* – adnodd 7.1 i annog syniadau.
5. Unwaith mae pob grŵp wedi gorffen trafod y sefyllfaoedd gofynnwch i bob grŵp yn ei dro i gyflwyno eu sefyllfaoedd a pha atebion maen nhw'n eu hawgrymu.
6. Anogwch adborth o'r bobl ifanc i gyd ar ôl i bob grŵp orffen eu cyflwyniadau. A oes yna fwy nag un opsiwn cymorth i bob sefyllfa?



# CYNLLUN GWERS 8: CYNLLUN GWEITHREDU GYRFA

## AMCAN Y WERS

I esbonio i bobl ifanc beth yw cynllun gweithredu a sut gall eu helpu nhw i gwrdd â gôl gyrfa.

## CANLYNIADAU DYSGU

Bydd pobl ifanc yn gallu:

- esbonio beth yw cynllun gweithredu a sut gall eu helpu nhw
- dangos eu bod nhw'n deall y camau gwahanol sydd angen eu cyflawni er mwyn cyflawni uchelgais gyrfa
- dangos eu bod nhw wedi dechrau creu cynllun gweithredu.

## BRASLUN Y WERS

### Sleid 78

Bydd y cynllun gwers hwn yn cyflwyno'r syniad o gynllun gweithredu i bobl ifanc; beth yw hyn a sut allan nhw ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer camau nesaf eu taith gyrfa.

Esboniwch i'r grŵp fod y gweithgaredd nesaf rydych am ei wneud gyda'ch gilydd yw cynllun gweithredu gyrfa. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys lot o'r pethau rydych chi wedi'u trafod heddiw, fel:

- Pa fath o swydd ydyn nhw'n credu eu bod nhw am ei wneud?
- Beth yw eu diddordebau a'u sgiliau?
- Pa gymorth ydyn nhw'n credu y bydd angen arnyn nhw?
- Sut allan nhw feddu ar eu byddardod?

Bydd cynllun gweithredu gyrfa yn eu helpu nhw *i ganolbwyntio eu meddyliau a'u syniadau i greu cyfres o gamau i gyflawni eu nodau gyrfa o fewn amser penodol*. Mae'r broses yn ystyried y ffaith y gall sefyllfaoedd newid a gall cynlluniau gael eu hadolygu a'u newid.

Esboniwch i'r grŵp gall eu 'gôl' am y gweithgaredd hwn fod yn unrhyw beth: gyrfa, cymhwyster, profiad gwaith, gwirfoddoli, coleg, prifysgol neu rywbeth hollol wahanol. Does dim rhaid iddo fod yn swydd/gyrfa. Nid gwneud dewis olaf am yr hyn maen nhw am ei wneud yw'r bwriad a gallan nhw newid y cynllun gweithredu eu hunain ar ôl y gweithdy.

## Sleid 79

Cyflwynwch y cynllun gweithredu fel yr amlinellir isod a gofynnwch i'r bobl ifanc i'w gwblhau i'w helpu nhw i gadarnhau eu syniadau a chamau nesaf.

| Gweithgareddau | | Amseru | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | Cynllun gweithredu | 20 munud | • A 8.1 Cynllun gweithredu gyrfa diwedd y sesiwn |

## GWEITHGAREDD 1
## CYNLLUN GWEITHREDU

**13–16/16–25 oed**

20 munud

Sleidiau 78-79

A 8.1 Cynllun gweithredu gyrfa

### Camau

1. Dosbarthwch gynllun gweithredu i bob person ifanc ac esboniwch i'r grŵp beth yw cynllun gweithredu a sut byddan nhw'n eu defnyddio heddiw
2. Dechreuwch drwy ofyn i bob person ifanc i ddewis 'gôl' – gofynnwch iddyn nhw i'w ysgrifennu yn y blwch hwn **f**.
3. Gofynnwch i'r bobl ifanc i weithio drwy'r blychau yn eu tro. Esboniwch fod y blychau yn cynrychioli'r pethau canlynol:

**a. Barod:** dyma ble rydyn nhw nawr (e.e. yn yr ysgol) a'r pethau maen nhw'n eu mwynhau, sgiliau, diddordebau ayb. Atgoffwch y grŵp eich bod chi wedi siarad am hyn yn barod, ar ddechrau'r gweithdy.

**b. Set:** Pa ddewisiadau mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud e.e. a ydyn nhw am barhau i astudio ar ôl gadael ysgol neu ddod o hyd i swydd? A ydyn nhw am wneud Lefelau A neu beidio? A ydyn nhw am wneud prentisiaeth, neu fynd i'r brifysgol? I ba brifysgol? A ydyn nhw am gymryd blwyddyn i ffwrdd ayb?

**c. Set:** Pa brofiad a/neu gymwysterau sydd angen arnyn nhw i gyflawni eu gôl e.e. pynciau/graddau TGAU, pynciau/graddau Lefel A, cymhwyster coleg, profiad gwaith, gradd prifysgol ayb?

**d. Set:** Dyma'r pethau y mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gyfrifol am y pethau hyn eu hunain e.e. cysylltu â chynghorydd gyrfaoedd, gwneud ymchwil ar-lein, cysylltu â chwmni i gael profiad gwaith, cwblhau eu cais am brentisiaeth, cwblhau eu cais UCAS ayb.

**e. Set:** Bydd angen arnyn nhw ‘help llaw’ gyda’r pethau hyn neu’r cymorth a fydd angen arnyn nhw er enghraifft rhoi ar waith cymorth cyfathrebu, diogelu cyllid drwy Lwfans Myfyrwyr Anabl neu Fynediad at Waith, adolygiadau blynyddol o’u cynllun cymorth os oes un gyda nhw, prynu darn o dechnoleg ayb. Hefyd gall y rheini fod yn bobl a all eu helpu nhw e.e rhiant, athro ayb.

**f. Ewch:** Dyma ble maen nhw’n ysgrifennu ei gôl

**g. Ewch:** Yr addewid! Gwnewch addewid am ddau neu dri pheth maen nhw am eu gwneud ar ôl y gweithdy/cynllun gweithredu i’w helpu nhw ar eu ffordd i gyflawni eu gôl e.e. gwneud ymchwil ar-lein am golegau lleol, dechrau eu cais UCAS ar-lein, cysylltu â chwmni lle maen nhw am gael profiad gwaith, cysylltu â’r cynghorydd anabledd yn y coleg lle maen nhw am fynd i ofyn am y cymorth cyfathrebu a fydd angen arnyn nhw, gwneud ymchwil i wahanol swyddi, edrych am fwy o wybodaeth am wirfoddoli ayb.



# A DYNA HI! RYDYCH CHI WEDI GORFFEN!

### Sleidiau 80 a 81

Rydych chi wedi dod i ddiwedd y cynlluniau'r gwersi ac wedi cyflwyno eich gweithdy – da iawn!

Dywedwch wrth eich grŵp ei fod nhw wedi bod yn wych! Anogwch nhw i droi i'r person wrth eu hochr a rhoi iddyn nhw bump!

Rhowch grynodeb byr i'r grŵp am gynnwys y gweithdy a'r negeseuon allweddol rydych chi am iddyn nhw gofio:

- Gyda'r cymorth cywir gall pobl fyddar gael mynediad at y mwyafrif o swyddi!
- Teimlwch yn hyderus i ddatgan eich byddardod!
- Dydy gyrfa ddim yn golygu swydd am oes – mae gyrfaoedd yn hyblyg ac yn gallu newid drwy'r amser!
- Defnyddiwch y cymorth a'r cyllid sydd ar gael i chi!
- Does dim ots pa lwybr addysg neu hyfforddiant rydych chi'n ei gymryd (neu os ydych chi'n newid eich meddwl ar hyd y ffordd) – gall pob llwybr arwain at gyflogaeth!
- Edrychwch ymlaen a meddyliwch am y camau mae'n rhaid i chi eu cymryd i wneud y swydd rydych chi am ei wneud – rhowch hyn yn eich cynllun gweithredu!

Anogwch y grŵp i ofyn cwestiynau neu i rannu unrhyw beth maen nhw wedi dysgu heddiw, unrhyw beth sy'n eu poeni nhw ar ôl y sesiynau, neu rywbeth cyffroes!

Defnyddiwch yr adnoddau a'r awgrymiadau am ddarllen ymhellach, sydd yn y pecyn cymorth, i'ch helpu chi i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y bobl ifanc. Atgoffwch y bobl ifanc fod popeth rydych chi wedi'i drafod heddiw ar wefan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a gallan nhw ddod o hyd i wybodaeth bellach, adnoddau a fideos yna – **www.ndcs.org.uk/youngpeople**

Printiwch neu ffotogopïwch y cerdyn Byddar yn Gweithio ym Mhobman a dilynwch y cyfarwyddiadau plygu. Dosbarthwch gerdyn i bob person ifanc a fynychodd y gweithdy. Bydd cardiau wedi'u printio'n barod ar gael i'w harchebu pan fydd ein swyddfeydd yn ail-agor. Cysylltwch â **ndcs@ndcs.org.uk** neu ymwelwch â **www.ndcs.org.uk/deafworkseverywherew** am fwy o wybodaeth ac i lawrlwytho'r cerdyn.

Efallai hoffech chi werthuso'r rhaglen yn defnyddio eich dulliau gwerthuso mewnol.

# CYFEIRIO

Isod mae'r adnoddau a dolenni i gyd a ddefnyddir trwy'r pecyn cymorth fel ei fod yn haws i chi ddod o hyd i'r wybodaeth sydd angen arnoch chi.

## DEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH HWN

Awgrymiadau ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod
**www.ndcs.org.uk/get-involved/deaf-awareness-tips/.**

Adnoddau
**www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**

Modiwlau dysgu ar-lein
**www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**

Deunyddiau cefnogol
**www.ndcs.org.uk/deafworkseverywherew**

## EICH HAWLIAU

Y Ddeddf Cydraddoldeb
**www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/disability-discrimination**

Deall eich hawliau
**www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)
**gov.wales/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act**

Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol
**socialcare.wales/hub/sswbact**

Hawliau plant
**www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/**

Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd
**www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign**

## ADEILADU'CH BRAND

Gyrfa Cymru
**gyrfacymru.llyw.cymru**

Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau
**llyw.cymru/prentisiaethau-sgiliau-a-hyfforddiant**

Cymru'n Gweithio
**cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/prentisiaethau-ar-gyfer-pobl-anabl**

Prospects UK
**www.prospects.ac.uk/**

## SUPPORT AND TECHNOLOGY

Mynediad at Waith
**www.gov.uk/mynediad-at-waith**

Lwfans Myfyrwyr Anabl
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/myfyrwyr-israddedig/myfyrwyr-newydd/pa-gymorth-ariannol-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl.aspx**

## CAREERS ACTION PLAN

Mwy o adnoddau
**www.ndcs.org.uk/youngpeople**

# CYSYLLTWCH Â NI!

Am unrhyw gwestiynau am y pecyn cymorth hwn, yn cynnwys yr adnoddau sydd ar gael, cysylltwch â **ndcs@ndcs.org.uk**.

Darperir yr adnodd hwn ar Drwydded Llywodraeth Agored sy'n galluogi unrhyw un i gopïo, cyhoeddi, dosbarthu, trosglwyddo ac addasu'r gwaith trwyddedig, ac i'w defnyddio yn fasnachol ac yn anfasnachol. Yn gyfnewid am hyn, bydd rhaid i ail-ddefnyddiwr y cyhoeddiad hwn gydnabod Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar fel ffynhonnell y gwaith.

**www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**

**Cyhoeddwyd gyntaf: DYDDIAD 2020**

**We are the National Deaf Children's Society, the leading charity for deaf children.**

**National Deaf Children's Society**
**Ground Floor South, Castle House**
**37–45 Paul Street, London EC2A 4LS**

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779. A0163e

National Deaf Children's Society CYMRU